



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Adroddiad Blynyddol 2018-2019

Gweithredu heddiw
ar gyfer gwell yfory.



Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Adroddiad Blynyddol 2018-2019

Rydyn ni wedi cynhyrchu'r ddogfen hon i'w darllen fel cyflwyniad rhyngweithiol.

Lle rydych chi'n gweld yr arwyddion hyn:

Darganfyddwch fwy

Darllenwch fwy

Gwrandewch ar Sain



Gwrandewch ar Soundcloud



Gwyliwch Fideo



Tudalen Gynnwys



Cynnwys

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-2019



Gweithredu heddiw
ar gyfer gwell yfory.

Pwrpas 1

Amlygu a gweithredu
ar y materion pwysig
a'r heriau sy'n wynebu
cenedlethau'r dyfodol

Tudalen 14

Pwrpas 3

Creu Mudiad
dros Newid

Tudalen 50

Yn y 12 mis nesaf

Cynlluniau ar gyfer y
dyfodol.

Beth fyddaf yn ei wneud
yn y 12 mis nesaf

Tudalen 78

Adroddiad Atebolrwydd

Tudalen 83

Pwrpas 2

Cynorthwyo a herio
cyrff cyhoeddus i
ddefnyddio'r Ddeddf
Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol

Tudalen 36

Purpose 4

Gweithredu'n ogystal â
thrafod – Storiâu o'n taith
personol – ysgwyddo'r
newid yr ydym yn dymuno
ei weld mewn erail

Tudalen 66

Datganiadau Ariannol

Tudalen 103



Cymru yn y Byd

– **Rufus Mufasa** Bardd Preswyl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

*To be, we need a centre...
City centre, town centre, our soul centre
Canol llawn cariad sy'n curo mewn undeb
gyda ein cymdogion rhwyngwladol
syniadau yn tyfu a symud
Wales in the World global perspective
Pro-active practice - profound peer learning...*

*All those centres need culture
Placed at the top of every agenda
& if we get that right, all our goals work together
Make love & kindness the only formula
Stride for a worldwide nation of happiness ministers*

*We want to collaborate creatively, culturally, sincerely
We want environmental sustainability for you & me
We want to humanise colleagues
Organic balance between work & families
20 hours a week commute isn't good for anybody...*

*Let's be Art of the Possible
Arts on Prescription
Public Service Swops for Rent
Coffee cups of compassion
Time to talk cups of tea
Mix of styles Future Leaders Academy...*

*Our waterfalls produced millions of litres daily
Magical Mills once gifted us an abundance of industry
We were once Tin Kings & Pottery Queens
Now love & kindness is our number one priority...*

*Global Guardians embedding systemic change
Kindness Challenges riding the waves
Sustainable Wellbeing Culture Craze
Pioneering Promises for the World, from Wales.*

Darganfyddwch fwy am ein cynllun Bardd Preswyl o dan Bwrpas 4 ar dudalen 76



Rhagair

Yr hyn sy'n newid...

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Yn y drydedd flwyddyn hon ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i rym, ac ar gychwyn 20 mlynedd ers datganoli yng Nghymru, rwy'n falch i weld ei bod yn amlwg fod cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf ar y daith tuag at gynaliadwyedd ac wedi cychwyn cymryd camau gweladwy i gyflawni eu hamcanion llesiant a gwireddu'r nodau llesiant cenedlaethol, er gwaethaf yr amodau anodd (yn cynnwys caledi ac ansicrwydd ynghylch Brexit). Gellir gweld enghreifftiau o newid drwyddi draw yn yr adroddiad hwn.

Eleni, cychwynnais fy arfer monitro ac asesu cyntaf sy'n un o fy nyletswyddau statudol. Mae cyrff cyhoeddus wedi dangos sut y maent yn mynd ati i gyflawni eu hamcanion llesiant ac thrwy offeryn hunan-fyfyrto a ddyfeisiwyd mewn partneriaeth rhyngom ni ac eraill wedi rhoi nifer o enghreifftiau o'r gwaith da sy'n cael ei wneud ganddynt i wella llesiant yn eu hardaloedd. Mae hyn yn galonogol iawn.

Mae hefyd yn dda i weld bod cydweithio drwy fyrdau gwasanaethau cyhoeddus yn arwain at weithredu sy'n ffocysu ar ystod o faterion yn amrwyio o fynd i'r afael â phroffadau niweidiol yn ystod plentyndod, trafnidiaeth garbon isel, ac ymagweddau tuag at weithio gyda chymunedau sy'n seiliedig ar asedau. Gallaf hefyd weld trefniadau llywodraethu integredig gydag ystod o wahanol sefydliadau a byrddau partneriaeth yn gweithredu gyda gwahanol olion traed a gyda chyrifoldebau sy'n gorgyffwrdd.

Mae darparu ysbrydoliaeth wedi bod yn ffocws i mi, yn dilyn cwblhau sefydlu fy swyddfa, ynghyd â ffocws arwyddocaol cynnar ar ddatblygu dealltwriaeth o ofnion y Ddeddf ymhlith cyrff cyhoeddus ac eraill. Gan ddefnyddio'r pum dull o weithio, cyhoeddais gamau cyntaf 'Teithiau'



i gyflawni nodau llesiant mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau. Mae dros ddwy ran o dair o gyrff cyhoeddus eisoes wedi mabwysiadu, neu yn y broses o fabwysiadu'r 'Newidiadau Syml' a awgrymwyd gennyf. Byddaf yn cyhoeddi gweddill fy 'Nheithiau' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf gan amlinelli camau ymarferol y gall cyrff cyhoeddus eu cymryd i gyflawni pob un o'u nodau llesiant.

Mewn cwta dair blynedd gallwn weld fod Cymru'n newid a bod llesiant cenedlaethau'r presennol yn dechrau gwella. Yn awr mae angen i ni symud yn gynt a chynyddu graddfa'r newid trawsffurfiol. Bydd gan gyllidebu'n gynaliadwy ar gyfer y genedl rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth.



Caiff Cymru ei chydabod yn rhyngwladol oherwydd y Ddeddf hon sy'n torri tir newydd. Rwy'n cael fy nghalonogi gan y symudiad cyffredinol a welaf yn cael ei adeiladu ar lawr gwlad o fewn y sector cyhoeddus a thu hwnt. Yn awr mae angen i ni gyflawni'r disgwyliadau hyn gyda'n gilydd. Mae angen i ni fod yn ewn ac arloesol heb ofni gwneud pethau'n wahanol – roedd datganiad y Prif Weinidog ar yr M4 yn brawf o'r Ddeddf yn dangos ymrwymiad gwirioneddol y llywodraeth hon.

Y flwyddyn nesaf, byddaf yn parhau i fonitro a chael tystiolaeth o'r newid sy'n digwydd ledled Cymru a byddaf yn defnyddio'r wybodaeth i roi cyngor a chymorth pellach yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf yn 2020. Byddaf yn dod yn fwy heriol mewn meysydd allweddol megis iechyd a chaffael.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n ddibaid i ysbrydoli, cynghori ac annog cyrff cyhoeddus i ddwyn Cymru'n agosach ac agosach at gyflawni'r nodau.



Crynodeb Perfformiad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn flaenllaw yn y byd yn y modd y mae'n gosod datblygu cynaliadwy wrth galon yr hyn a wnawn yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi uchelgais, caniatâd a dylestwydd gyfreithlon i ni wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n ymwneud â newid yr ffordd yr ydym yn meddwl, cynllunio a gweithredu.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bopeth a wneir gan gyrff cyhoeddus – yn amrywio o syniadau newydd hyd at wneud penderfyniadau polisi o bwys ar ein gwasanaethau neu'n seilwaith. Dyma'r rhaglen fwyaf o newid diwylliannol a welwyd erioed yng Nghymru ar gyfer y 400,000 o weithwyr a gyflogir gan ein gwasanaethau cyhoeddus. Daeth y Ddeddf i rym yn Ebrill 2016 a rydym yn awr yn y bedwaredd flwyddyn o'i gweithrediad. Mae bron i bob un o flociau'r ddeddfwriaeth wedi cael eu sefydlu ac mae Llywodraeth Cymru'n addo cyhoeddi cerrig milltir cenedlaethol yn y 12 mis nesaf.

Ni fydd y newid sylfaenol tuag at wir gynaliadwyedd yn digwydd dros nos gan fod ymgyfraniad pawb yn angenrheidiol. Fy rôl i yw annog a chynorthwyo'r newid trawsffurfiol hwn mewn 44 o gyrff cyhoeddus ac 19 o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ac mae fy ymagwedd o'r diwrnod cyntaf wedi ymwneud ag arwain drwy esiampl a bod yn ffrind beirniadol.

Sut rwy'n mesur perfformiad

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â dwyn newid i fywyd pobl a newid ymddygiad. Mae hyn yn gymhleth, yn cymryd amser ac yn her wirioneddol i sefydliadau a dynoliaeth. Rwyf wedi dewis dangosyddion perfformiad sy'n caniatáu i mi a'r rhai sydd eisiau craffu ar fy ngwaith i weld sut mae fy Swyddfa'n dylanwadu ar yr esblygiad hwn tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

Fy mesurau perfformiad strategol ar gyfer fy swyddfa yw:

- ✓ Fframio'r ddadl a chael materion ar yr agenda
- ✓ Annog ymrwymadau cynhwysfawr oddi wrth weinidogion, Llywodraeth ac eraill
- ✓ Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae gyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas eu pethau
- ✓ Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymadau
- ✓ Dylanwadu ar newid mewn ymddygiad ymarferol eraill

Fy rôl

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fy nyletswydd gyffredinol yw hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rwy'n hyfforddwr a ffrind beirniadol i gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac unrhyw un a fedr gyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rwyf yn cynorthwyo a herio gyrff cyhoeddus fel eu bod yn ymrwymo i'w dyletswydd ac yn gwella pob agwedd ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol holl boblogaeth Cymru.

Beth mae fy nyletswydd yn ei gynnwys?

"Hybu egwyddor datblygu cynaliadwy (yn cynnwys y pum dull o weithio), yn arbennig weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion; ac annog gyrff cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn y maent yn ei wneud."

"At y diben hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni."

I gyflawni fy nyletswydd gyffredinol, mae gennyf ystod o **swyddogaethau a phwerau penodol**:

- **Adran 18 (a) Dyletswydd gyffredinol** – Hybu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- **Adran 18 (b) Dyletswydd gyffredinol** – Monitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni
- **Adran 19 (a) Pŵer** – Rhoi cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys rhoi cyngor ar y newid yn yr hinsawdd)
- **Adran 19 (b) Pŵer** – Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- **Adran 19 (c) Pŵer** – Rhoi cyngor i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi ei gynllun llesiant lleol
- **Adran 19 (d) Pŵer** – Rhoi unrhyw gyngor neu gymorth arall i unrhyw berson arall a ystyrir gan y Comisiynydd fel un sy'n cymryd camau a allai gyfrannu at gyflawniad y Nodau Llesiant
- **Adran 19 (e) Pŵer** – Annog arfer gorau mewn gyrff cyhoeddus wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy

■ **Adran 19 (f) Pŵer** – Hybu ymwybyddiaeth ymhlith gyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy

■ **Adran 19 (g) Pŵer** – Annog gyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a gyda phersonau eraill os y gallai hyn eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant

■ **Adran 19 (h) Pŵer** – Chwilio am gyngor panel cynghori mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd

■ **Adran 20 i 22** – Pŵer i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion

Mae gennyf hefyd ddyletswydd i roi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a'u cynlluniau drafft, a phwerau i dderbyn copïau o adroddiadau ac i ymgynghori â hwynt ar wahanol adegau.

Rwyf wedi distyllu'r swyddogaethau a'r pwerau hyn yn bedwar Pwrpas Strategol:

Pwrpas 1

Amlygu a gweithredu'r materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Pwrpas 2

Cynorthwyo a herio gyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Pwrpas 3

Creu mudiad ar gyfer newid

Pwrpas 4

Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Mae fy adroddiad blynyddol wedi ei strwythuro o amgylch y pedwar pwrpas hyn.

Crynodeb o'r hyn a wneuthum yn 2018-2019

Mae fy nhrydedd flwyddyn wedi ffocysu ar gynhyrchu adnoddau a rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus fel eu bod yn medru deall y Ddeddf a'i goblygiadau'n iawn ar bob lefel o ddarpariaeth gwasanaethau a llywodraethu ledled Cymru. Rwyf wedi ffocysu fy ymdrechion ar hybu'r Ddeddf a gweithio ar fy rhaglen waith fwyaf hyd yn hyn 'Y Gallu i Greu'.

Bu cynnydd yn y galw am fy nghyngor a chymorth oddi wrth gyrff cyhoeddus a sefydliadau ac o'r 183 cais, rwyf wedi cynghori a chynorthwyo ar 76% ohonynt.

Rwyf hefyd wedi dewis rhoi cyngor rhagweithiol ar faterion sy'n ymwneud â'm meysydd ffocws, sy'n cyfateb i'm hamcanion llesiant i fy hun – cynllunio, tai, trafnidiaeth, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gwell dulliau o gadw pobl yn iach a sgiliau'r dyfodol. Gwneuthum hefyd ddylunio methodoleg ar gyfer fy nghylch cyntaf o fonitro ac asesu, gan weithio gyda chyrff cyhoeddus a phartneriaid gan ddilyn egwyddorion yr Ddeddf fy hunan.


Rwyf wedi parhau i wrando ar gymunedau a sefydliadau ar draws pob un o'r tri sector, yn ogystal ag ar bobl sy'n ysgrifennu ataf. Rwyf wedi ceisio eu galluogi i ddefnyddio'r Ddeddf yn eu rhyngweithio gyda chyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac wedi ateb 200 o geisiadau am gyngor oddi wrth aelodau'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr ac i lythyron oddi wrth grwpiau cymunedol. Rwyf wedi parhau i adeiladu dealltwriaeth o'r Ddeddf drwy nifer o ddigwyddiadau, sesiynau hyfforddi, gweithdai, cynadleddau a sesiynau ffocws gyda byrddau. Rwy'n gweld hyn fel rhan bwysig o 'adeiladu mudiad' oherwydd credaf bod angen i gyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat, cymunedau ac unigolion yng Nghymru weithio gyda'i gilydd, gan gynorthwyo a herio'i gilydd i wireddu'n llwyr y Gymru a Garem.

I grynhoi, rwyf wedi:

✓ **Fframio dadleuon a chael materion ar yr agenda** mewn perthynas â'r M4 a thrafnidiaeth yng Nghymru; yr Adolygiad Tai Fforddiadwy; safonau tai; cynadleddau cynaliadwy, sgiliau; pwysigrwydd atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; cyllidebu ac atal; gweithredu WeITAG; Adolygiad Llywodraeth Cymru o Arloesi Digidol ac Adolygu Caffael; ariannu datgarboneiddio; sut rydyn ni'n mesur cynnydd; y dyfodol a'r angen i feddwl yn yr hirdymor am y gwahaniaeth rhwng ymgyfrannu ac ymgynghori; mewn trafodaethau a chynlluniau deddfwriaethol mewn gwledydd eraill.

✓ **Annog ymrwymadau cynhwysfawr oddi wrth Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill** mewn perthynas â'r M4; cyflawni Metro De Cymru; y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol; yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy; Polisi Cynllunio Cymru 10; datgarboneiddio – Cymru Garbon Isel; cyllidebu strategol; rhyngweithio rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd; rheoliadau cynllunio a thrwyddedu; targedau datgarboneiddio a'r angen am ymagwedd integredig; caffael; a nifer o gerrig milltir cenedlaethol.

✓ **Wedi sicrhau newid cyfundrefnol yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio** mewn perthynas ag adrodd blynyddol cyrff cyhoeddus; craffu gan gynghorwyr; modelu darpariaeth gan y gweithredwr Metro KeolisAmey; sut y dylid fframio Cynllun Tymor Canolig Integredig mewn iechyd; dewis prosiectau o dan y Gronfa Tai Arloesol; cyllidebu strategol a sut y cyflwynir cyllidebau; proses a gweithrediad WeITAG; asesiad o gamau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru yn erbyn y nodau llesiant; sicrhau mwy o gydweithredu a chynllunio tymor hwy yn y sector iechyd; ymagwedd ac ymateb cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod; sut mae CCAUC wedi dyrannu rhywfaint o gyllid a thrwy fabwysiadu Newidiadau Syml fy nghynllun Y Gallu i Greu.



Ein nodau llesiant

- ✓ **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymadau** yr M4, Polisi Cynllunio Cymru 10; Cynllun Cyflawni Carbon Isel; Fframwaith Gynllunio'r GIG 2019-22, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig; Adrodd Cenedlaethol Gwirfoddol; arolwg cenedlaethol; cyllidebu strategol; Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru a safonau tai; effeithiau cronol ffermio dwys a drwy fabwysiadu rhai o Newidiadau Syml fy nghynllun Y Gallu i Greu.
- ✓ **Dylanwadu ar newid mewn ymddygiad ymarferol eraill** megis fy mhartneriaid yn y cynllun Y Gallu i Greu; defnyddwyr WeITAG; gweithredwr Metro a Thrafnidiaeth Cymru; yr

Arolygiaeth Gynllunio; Cymorth Cynllunio; Academi Wales; yr unigolion niferus a grwpiau cymunedol sy'n defnyddio fy fframweithiau; archwilywyr; gweithwyr iechyd proffesiynol; Canolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a llawer o gyrff cyhoeddus a hyfforddwyd gan y Ganolfan; adeiladwyr a pheirianwyr; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cenedlaethol sy'n cymryd rhan yn ein Labordy Byw ar fynd i'r afael â gordewdra; rhai prifysgolion; busnesau a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru a Chomisiynydd Datblygu Cynaliadwy Gibraltar.

Pwrpas 1

Amlygu a gweithredu ar y materion pwysig a'r heriau sy'n wynebu cenedlethau'r dyfodol

Gyda thîm sy'n fychan mewn cymhariaeth ag ehangder ac uchelgais y Ddeddf, mae angen i mi fod yn graff gan weithio ar faterion â'r posibilrwydd o gael yr effaith mwyaf ar draws pob agwedd o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol poblogaeth Cymru.

Dyma paham, yn 2017, y dewisais y meysydd newid lle gallaf facsimeiddio fy nghyfraniad i'r saith nod llesiant – sy'n cyfateb i osod fy amcanion llesiant fy hunan.

Maent wedi eu rhannu'n dri grŵp ac yn cynnwys:

- **Creu'r seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**
(Cynllunio, Trafnidiaeth, Tai, Datgarboneiddio)
- **Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol**
(Sgiliau, dewisiadau amgenach na'r GIG, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)
- **Gwella systemau** cyllid a phenderfynu sy'n sail i wasanaethau cyhoeddus a chaffael



Creu'r seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cynllunio trafndiaeth

Mae dulliau newydd o feddwl a chynllunio symudedd a thrafnidiaeth yng Nghymru'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r nodau llesiant – yn arbennig Cymru Gydnerth, Lewyrchus, Gydlynus, fwy Cyfartal a lachach. Mae'n rhan bwysig o fywyd pob un ac os y llwyddwn yn hyn o beth fe gaiff effaith arwyddocaol ar ein gallu i gyflawni targedau lleihau carbon.

Mae angen i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ymbellhau oddi wrth ddibyniaeth ar gar unigol a thanwydd ffosil ar gyfer symud o le i le. Mae'n un o ofynion cyfraith genedlaethol a rhyngwladol. Gydag 14% o allyriadau carbon Cymru'n dod o'r sector drafnidiaeth dylai hyn fod yn brif flaenoriaeth yng ngoleuni'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2019.



Ym mha fodd y mae'r Ddeddf yn gwneud gwahaniaeth?

Mae Cyngor Caerdydd yn rhoi blaenoriaeth i aer glân a newid o deithio mewn car preifat i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Paratowyd dyluniadau cysyniad cychwynnol ar gyfer pedair beicffordd, ynghyd â chynlluniau seilwaith beicio a chynllun Hurio Beiciau Ar-y-Stryd (Nextbike) sydd wedi dod y mwyaf llwyddiannus yn y DU, gan dyfu o 25 i 500 beic ledled y ddinas.

Darllenwch y blogiau oddi wrth un o lysgenhadon lleol Nextbike [Roqib Monsur](#) a'r [Cynghorydd Caro Wild](#), Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth.

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi prynu 40 cerbyd trydan ac wedi ennill gwobr am y nifer mwyaf o faniau trydan yn fflyd y sector cyhoeddus. **Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** ynghyd â **Stagecoach**, yn **ogystal â chynghorau Caerdydd a Chasnewydd** yn y broses o gyflwyno bysiau trydan.

M4

Bu'n rhaid i Gymru ddewis a ddylid gwario o leiaf £1.4 biliwn ar adeiladu rhan newydd o draffordd yr M4 neu fuddsoddi mewn dyfodol trafndiaeth gynaliadwy amgen. Roedd fy nghyngor i Lywodraeth Cymru'n glir iawn:

Os yr ydym yn dewis gwario swm mor fawr o arian cyhoeddus, mae angen i ni wneud yn siwr bod yr arian yr ydym yn ei fenthycu, y bydd yn rhaid i genedlaethau'r dyfodol ei ad-dalu, yn cyfrannu'n gadarnhaol i lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn dilyn fy nhystiolaeth i'r ymholiad cyhoeddus ar yr M4 yn 2017-2018, cydweithiais gyda **Sustrans, Canolfan Drafnidiaeth a Chymdeithas Prifysgol Gorllewin Lloegr a'r New Economics Foundation** i gyhoeddi Trafnidiaeth Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol a ddangosodd sut y dylid gwario'r £1.4bn a glustnodwyd ar gyfer ffordd liniau'r M4 ar fesurau eraill, yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol, a fyddai'n llawer mwy buddiol i lesiant.

“Mae trafndiaeth a thechnoleg yn datblygu’n gyflym a bydd yn chwyldroi’r ffordd yr ydym yn teithio a’r ffordd y byddwn yn byw a gweithio yn y dyfodol”

Ar hyn o bryd mae Cymru wedi lleihau allyriadau o drafndiaeth o 3% yn unig ers 1990 ac mae hyn wedi’i osod yn erbyn targed o 11% sydd eisoes wedi ei osod ar gyfer y flwyddyn nesaf (2020) a lleihad o 79% yn y sector erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru’n honni y bydd y cynllun yn garbon-niwtral erbyn 2072, ac erbyn hynny gall y bydd 500,000+ o dunelli ychwanegol o allyriadau wedi eu cynhyrchu. Mae hyn yn annerbyniol. Byddai’r Llwybr Du yn gwaethgu llawer o’r heriau cymdeithasol ac amgylcheddol sy’n wynebu Cymru yn cynnwys allyriadau sy’n gyfarfal â 500,000 tonnelli o garbon diocsid na fydd yn cael eu tynnu o’r amgylchedd tan o leiaf 2072. Nid yw hyn yn unol â’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol na’r Datganiad Argyfwng Hinsawdd. Gwnaeth fy adroddiad roi tystiolaeth gredadwy i Aelodau’r Cynulliad a rhanddeiliaid ehangach i herio’r M4 fel datblygiad nad oedd yn addas ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, ac mae fy marn wedi ychwanegu pwysau sylweddol at y ddadl.

Darllenwch fwy

Darllenwch fwy

M4 Black Route plan unambitious, says the future generations commissioner for Wales Sophie Howe



Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru wedi dangos newid amlwg ym mholsi’r Llywodraeth gyda’r Prif Weinidog yn gosod pwysau sylweddol ar yr effaith y byddai’r cynllun yn ei gael ar yr amgylchedd. Mae Comisiwn newydd arbenigol wedi ei sefydlu sy’n gwneud egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn rhan hanfodol o’i gylch gorchwyl:

■ **Bydd y Comisiwn yn ystyried barn yr holl rhanddeiliaid** gan gynnwys Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, grwpiau busnes, partneriaid cymdeithasol, grwpiau amgylcheddol, grwpiau defnyddwyr trafndiaeth, cynrychiolwyr gwleidyddol lleol a chenedlaethol ac wrth gwrs y cyhoedd.

■ **Bydd y Comisiwn yn ystyried anghenion cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol**, gan gadw mewn golwg broblemau uniongyrchol a thueddiadau’r dyfodol, megis effaith tanwydd amgen a cherbydau awtonomaidd.

■ **Bydd y Comisiwn yn ystyried adroddiad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd** a materion eraill cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn cynnwys ansawdd aer.

■ **Bydd y Comisiwn yn ystyried materion ymddygiadol sydd wrth wraidd y** twf parhaus mewn trafndiaeth ar y ffyrdd yng Nghymru, a sut y gallai datrysiadau ymateb i’r ffactorau hynny.



Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)

Mae’r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a gyhoeddwyd yn 2017 yn newid pwysig yn yr ymagwedd draddodiadol tuag at adeiladu’r achos dros ymyriadau mewn trafndiaeth. Yn dilyn fy nghyngor yn 2017-2018 mae Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn flaengar a chanolog ac yn cynrychioli newid cyfundrefnol arwyddocaol yn y modd y dylai cyrff cyhoeddus fynd ati i gynllunio’u trafndiaeth, gan eu hannog i ffocysu ar ddatrysiadau sy’n lleihau allyriadau carbon, yn annog cydraddoldeb mynediad, gwella iechyd, ansawdd aer a hybu teithio llesol.

Rwyf wedi adolygu a herio dau o adroddiadau WelTAG fel samplau ar hap – un ar gyfer cynllun yn Llandeilo ac un arall yn Hwlfordd. Rwy’n pryderu nad yw’r rhai sy’n comisiynu ac ysgrifennu adroddiadau WelTAG yn medru cymhwysu’r Ddeddf a’r dulliau newydd o weithio, felly rwyf wedi bod yn glir iawn am fy nisgwyladau, sef, os nad ydynt wedi cymhwysu’r pum dull o weithio yng Nghyfnod 1 bod angen iddynt gychwyn eto. I fynd i’r afael â hyn, rwyf wedi ysgrifennu at arweinyddion WelTAG i ofyn am adborth ac wedi cyfrannu mewn nifer o ddigwyddiadau gyda pheirianwyr a gweithwyr proffesiynol ar bob lefel o’r system gynllunio trafndiaeth, ac mae’n rhywbeth y byddaf yn parhau i’w fonitro.

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

Rwyf wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth iddynt fynd ati i ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth Cymru newydd, gan gynorthwyo ac annerch


Darllenwch fwy

gweithdai rhanddeiliaid, a’u herio i ystyried sut y bydd y strategaeth yn cynorthwyo gweledigaeth hirdymor o gyflwyno’r holl nodau llesiant yn cynnwys ffocws sylweddol ar newid moddol. Rwyf hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd integreiddio gyda pholisïau eraill y llywodraeth, megis cynllunio, a sicrhau fod materion fel datgarboneiddio, ansawdd aer a iechyd yn ystyriaethau allweddol. Byddaf yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru dros y 12 mis nesaf wrth i’r strategaeth cael ei chwblhau.

Masnachfaint Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wrth wraidd masnachfaint rheilffyrdd yng Nghymru a’r Gororau, y contract caffael mwyaf a gyflwynwyd yng Nghymru, gwerth £5 miliwn, diolch i waith fy nhîm llynedd. **KeolisAmey** (a elwir bellach yn **Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru**) yw’r gweithredwr rheilffordd llwyddiannus. Rwyf wedi parhau i’w cefnogi a’u herio i sicrhau bod yr holl gyfleoedd a addawyd ganddynt i gyfrannu tuag at y saith nod llesiant yn cael eu cymryd. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y modelu a wnaed gan KeolisAmey am y modd y bydd y saith nod llesiant yn cael eu cynnwys yn y cyflwyniad, ac rwy’n croesawu ymagwedd bositif Trafnidiaeth Cymru a’u parodrwydd i weithio gyda mi ac eraill i adnabod arfer gorau o fannau eraill.

Fel rhan o’r ymrwymiad hwn i ‘gynorthwyo datblygiad cynaliadwy economaidd-gymdeithasol drwy eu hymagwedd tuag at gaffael’ cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru’n ddiweddar sut y byddent yn gweithio gydag ELITE Paper Solutions, menter gymdeithasol sy’n helpu pobl ag anableddau i gael eu cyflogi i storio a chael gaffael ar ddogfennau a chontractau sydd wedi eu harchifo.



Ffigwr 1: Sut mae Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni’r nodau

Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Tai

Mae ansawdd y cartrefi yr ydym yn byw ynddynt yn ganolog i lesiant pawb. Mae'n dylanwadu ar ein hiechyd, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n cwmpas, ac mae cysylltiad agos rhwng tai o ansawdd gwael ag anghydraddoldeb, tlodi a chyfleoedd bywyd cyfyngedig.

Yn mha fodd y mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth?

Rwyf wedi fy nghalonogi i weld y sector tai, a diwydiannau cysylltiedig megis y sector adeiladu, yn mabwysiadu egwyddorion y Ddeddf yn rhagweithiol. Mae yna lawer o enghreifftiau gwych o'r gwahaniaeth mae hyn yn ei wneud sy'n hynod o foddhaol o gofio nad yw cymdeithasau tai yn dod o dan y Ddeddf.

Mae **Dinas a Sir Abertawe** wedi adeiladu 18 o gartrefi ar gyfer eu rhentu'n gymdeithasol, sydd wedi eu dylunio yn ôl safonau ynni isel Passivhaus, sy'n golygu nad oes arnynt angen llawer o ynni ar gyfer gwresogi ac oeri, gan helpu i gadw biliau ynni'n isel a helpu'r amgylchedd. Crewyd swyddi gan y gwaith adeiladu, gan roi cyfleoedd i brentisiaid a'r defnydd o gyflenwyr lleol.

Mae gan **Gymdeithas Dai Cartrefi Conwy** eiddo ac isgwmni hyfforddi o'r enw 'Creating Enterprise' sydd wedi cychwyn ffatri 'cartref modiwlwr' yng Nghaergybi, sy'n defnyddio coed i adeiladu cartrefi mewn llai na phythefnos. Mae'r cartrefi'n ynni isel, a fedr arbed 90% o gostau ynni i breswylwyr a thrwy leihau colli gwres mae'r effaith ar yr amgylchedd yn fach iawn.

Nid adeiladu cartrefi yw unig ffordd y fenter gymdeithasol hon ond hefyd ddefnyddio'r elw a gynhyrchir i roi cyfle i bobl ddiwaith ledled gogledd Cymru i ennill profiad, hyfforddiant a chymwysterau yn y gweithle. Yn y flwyddyn gyntaf maent yn disgwyl rhoi cyfleoedd gwaith i 50 o unigolion.

Rwyf wedi herio Llywodraeth Cymru ar y modd yr oeddent yn dewis cynlluniau o dan y Rhaglen Tai Arloesol, rhaglen dair blynedd gyda £90miliwn o gyllid i gynorthwyo'r sector tai, ac i feddwl mwy am y dyfodol a datblygu sail dystiolaeth o arfer gorau.

Wrth weithio gyda secondai o **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru**, rhoddais gyngor ar sut i wella ymwybyddiaeth ac asesiad Llywodraeth Cymru ac ymgeiswyr o'r prosiectau ym Mlwyddyn 2 a sut y gellir rhannu arfer gorau gydag eraill. Arweiniodd hyn at ymrwymiad oddi wrth y Llywodraeth y byddai'r Ddeddf ym Mlwyddyn 3 yn cael llawer mwy o ystyriaeth a sylw manylach. Mae'r rhaglen yn awr yn datgan yn ffurfiol mai ei nod yw 'cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy fel rhan o'r targed i adeiladu 20,000 o dai ychwanegol mewn dull sy'n alinio dyluniad a darpariaeth tai fforddiadwy â'r saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' gyda'r Fanyleb a Chanllawiau Technegol ar gyfer y rhaglen yn adlewyrchu'r amcanion hyn.



Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o bolisi tai fforddiadwy yng Nghymru – y cyntaf mewn 10 mlynedd – i ddeall yn well sut y gallai'r Llywodraeth sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu hadeiladu'n gynt ac ar raddfa fwy. Gweithiodd fy swyddfa'n agos gyda'r Panel Adolygu gan ddefnyddio, yn fy swyddfa, arbenigedd secondeion o **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a Chymdeithas Tai United Welsh** i ddarparu sesiynau cyngori a herio i gynorthwyo'r rhai oedd yn ymgyswrtu yn yr ymarfer i ganolbwyntio ar yr hirdymor, ar integreiddio a llesiant. Mae polisiau tai a fframweithiau comisiynu'n gymhleth a byr eu tymor, sy'n atal y sector rhag gwneud penderfyniadau hirdymor yn unol â'r saith nod llesiant. Cyngorais na ddylai'r Adolygiad fod yn ymagwedd tuag at gynyddu'r nifer o dai oedd yn seiliedig ar 'gêm niferoedd' technegol yn digwydd mewn seilios. ond yn hytrach y dylai ystyried anghenion gwirioneddol o fewn Cymru, yn cynnwys tueddiadau'r dyfodol a'r cysylltiadau â datgarboneiddio a swyddi a sgiliau ar gyfer y dyfodol a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r **Adolygiad** ar 1 Mai 2019 ac mae'r argymhellion wedi eu halinio i fodloni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyn bo hir bydd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol newydd, yn cyhoeddi cynllun gweithredu. Dyma ymagwedd ffres, heriol a blaengar tuag at dai yng Nghymru sy'n gwireddu uchelgais y Ddeddf, a dyma'r union beth sydd ei angen ar Gymru.

Yn 2019, byddaf yn ffocysu ar roi cyngor ar weithrediad argymhellion yr Adolygiad Tai, ac i'r **Panel Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol** sydd i fod i adrodd yng Ngorffennaf.

Panel Adolygu Tai Fforddiadwy



Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi cynhyrchu adroddiad o'r enw 'UK Housing: Fit for the Future?' Yn yr un modd â'r adolygiadau a luniwyd yng Nghymru, mae'r adroddiad yn amlinellu'r angen am newidiadau arwyddocaol o fewn y sector. Mae hefyd yn ffocysu ar rai meysydd newydd sydd, hyd yn hyn, heb gael eu hamlygu mor gryf ar lefel strategol yng Nghymru, megis y bwlch sgiliau mewn dulliau newydd o adeiladu o fewn y sector adeiladu tai.

Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cynllunio Defnydd Tir

Mae'r ffordd yr ydym yn cynllunio'n cartrefi, ein cymunedau a seilwaith ar gyfer y dyfodol yn hollbwysig wrth fynd i'r afael â heriau hirdymor, ymateb i dueddiadau'r dyfodol a chyflawni llesiant. Mae llawer o bobl yn teimlo'n rhwystredig gyda'r system bresennol oherwydd ei bod yn glir nad yw penderfyniadau cynllunio allweddol yn ffocysu'n ddigonol ar ystyried yr effaith ar bob elfen o lesiant, a'r gyfres o ddogfennau polisi cynllunio heb fod yn adlewyrchu rhwymedigaethau newydd o dan y Ddeddf.

Rwyf wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddar eu dogfennau cynllunio cenedlaethol, gan gychwyn gydag adolygiad llawn o **Gynllunio Polisi Cymru** (y strategaeth gynllunio cenedlaethol i Gymru) a dyluniad y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (y cynllun gofodol statudol cenedlaethol i Gymru). Caiff hyn ei ddilyn gan y **Llawlyfr Datblygu Lleol** yn 2019. Mae'r rhain yn ddogfennau allweddol a fydd yn sbarduno cyfeiriad a dull y modd y bydd cyfraith gynllunio'n cael ei chymhwyso yn y blynnyddoedd i ddod ac felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu cynllunio i sbarduno cynnydd tuag at y nodau llesiant.

Cyhoeddwyd y rhifyn wedi ei ddiweddarau o Bolisi Cynllunio Cymru 10 yn 2018. Gwneuthum ddylanwadu ar brosesau'r Llywodraeth ar gyfer ymgyfraniad gan sicrhau naratif cryf ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r saith nod llesiant. Rwyf wedi sicrhau bod y dyheadau yn gwneud y pum dull o weithio a'r nodau llesiant yn rhan hanfodol o'u natur integredig, yn cynnwys carbon isel, cydraddoldeb a lleihad mewn tlodi.

Rwyf wedi rhoi cyngor tebyg ar y **Fframwaith Datblygu Cynaliadwy** statudol, gan gynghori ar y ddogfen ymgynghori ddrafft a'r drafft cyntaf o'r fframwaith sy'n hwyluso ymgysylltad ag ystod eang o bobl (er enghraifft, pobl ifanc).

Fel rhan o sicrhau bod yr holl system yn deall eu hymrwymadau o dan y Ddeddf, rwyf wedi ymgysylltu ag Arolygiaeth Cynllunio Cymru, gan arsylwi ar wrandawiadau cynllunio lleol ac ymchwiliadau a

rhoi cyngor. Mae **Arolygiaeth Cynllunio Cymru** yn ddiweddar wedi gwrthod apeliadau cynllunio am eu bod yn anghyson ag amcanion llesiant a'r saith nod llesiant.

"Efallai eich bod yn ymwybodol o benderfyniad a wnaed gan gyfarwyddwr yr Arolygiaeth Gynllunio'n ddiweddar pan benderfynodd fod ei rhwymedigaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu na fedrai gynnal apêl Pets at Home i gael Saesneg yn unig ar eu harwyddion mewn siop newydd yn Cross Hands. Gan ddyfynu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dywedodd bod angen i'r Arolygiaeth weithio tuag at sicrhau bod gan Gymru 'Ddiwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' ac felly cefnogodd benderfyniad Sir Gaerfyrddin i wrthod caniatâd cynllunio."

Rwyf wedi ennyn ymgyfraniad llawer o sefydliadau yn cynnwys y **Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol** yn fy ngwaith ac wedi treulio llawer o amser yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ar bob lefel o'r system gynllunio. Yn ddiweddar dechreuais hefyd gydweithio gyda **Cymorth Cynllunio Cymru** fel bod pobl yn cael y cymorth neu'r help sydd ar gael iddynt i unioni cam a sicrhau bod ymgynghorwyr Cymorth Cynllunio Cymru'n ymwybodol o'r Ddeddf ac o'n cyngor. Bydd ailgastio'r holl system gynllunio'n cymryd amser i dreiddio drwy'r holl system a chael ei chymhwyso ym mhob penderfyniad cynllunio yng Nghymru.

"Mae cyflwyno'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi ychwanegu dimensiwn newydd ac angenrheidiol at ein meddylfryd strategol, drwy sicrhau ein bod yn talu'r un sylw i'r dyfodol hirdymor ag i'r presennol"

Phil Williams,
Ymgynghorydd Cynllunio.



Marie B- Navarro
@MarieBNavarro

Very productive workshop at Wales Planning Conference #walesplan19 generated lots of ideas for our inspirational planning journeys @RTPIPlanners @futuregencymru



Cynllunio yw un o'r materion y mae pobl yn ysgrifennu ataf amdano'n fwy aml na dim byd arall – fel arfer am ddatblygiadau penodol a phenderfyniadau ar – fel arfer am ddatblygiadau penodol a phenderfyniadau ar gynigion – lle nad yw'n rhan o'm cylch gwaith i ymyrryd. Dyma'r rheswm pam yr wyf wedi bod yn gweithio i ddiwygio'r system ar lefel strategol ond rwy'n ceisio grymuso pobl a chymunedau i ddefnyddio'r Ddeddf eu hunain a rhoi cyngor manwl iddynt ar y modd y gellir gwneud hyn. Mae'r fath gyfathrebu wedi fy helpu i nodi'r bylchau a materion systemig yn y system gynllunio (megis diffyg proses apêl ar gyfer penderfyniadau i roi caniatâd; gwrthdrawiadau TAN1 yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i ystyriaethau economaidd, a'r ffaith bod gwahanol gyfnodau cynllunio, yn ogystal â chaniatáu a thrwyddedu'n ymddangos yn ddigswllt a.y.y.b.)

Creu'r seilwaith iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd – Datgarboneiddio

2018-2019 oedd y flwyddyn pan ddangosodd plant bod yn rhaid i wleidyddion a gwneuthurwyr penderfyniadau ledled Cymru wneud mwy ar y newid yn yr hinsawdd..



Darllenwch fwy

Mae **Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd** (UKCCC) wedi gosod targed newydd uchelgeisiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o 95% erbyn 2050, gyda'r DU yn gyffredinol yn gobeithio cyrraedd sero net erbyn 2050. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru pan gyhoeddodd ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd ar 29 Ebrill 2019 yn adleisio'r angen i weithredu ar frys ar argymhellion y Pwyllgor.

Nid yw geiriau'n ddigon. Mae arnom angen gweld gweithredu clir a dyraniad adnoddau yng Nghymru i gyfateb â'r ymrwymadau hyn. Mae'r penderfyniad i beidio buddsoddi holl gapasiti benthyca'r wlad mewn estyniad i ffordd liniaru'r M4 yn gychwyn da ond mae angen gwneud rhagor i newid polisi a dyrannu adnoddau. Mae'r UKCCC wedi bod yn glir hefyd bod angen gweithredu i gynyddu ynni

adnewyddol, gwneud adeiladau'n fwy effeithlon, lleihau allyriadau o ffermio, sicrhau gwell dylunio cynllunio ac adeiladu cartrefi ac adfer coedwigoedd a mawndiroedd i ddal carbon.



Darllenwch fwy

Ym mha fodd y mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth?

Cyhoeddodd **cyngorau tref fel Machynlleth** ac **awdurdodau lleol yn cynnwys Sir Gaefyrddin** ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd yn 2019, ac yn dilyn hyn daeth Llywodraeth Cymru'r llywodraeth gyntaf yn y byd i wneud hynny.

Ymrwymodd **Trafnidiaeth Cymru & Metro** i 100% o drydan adnewyddadwy i bob gorsaf gyda hanner yr ynni hyn yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, a thrydaneiddio 172km o drac ar linellau'r cymoedd.

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, cyngorau Caerffili a Chonwy** wedi cyflwyno paneli solar ar eu hadeiladau hwy eu hunian ac adeiladau cymunedol fel ysgolion.

Dylid cymeradwyo **Cyfoeth Naturiol Cymru** am eu hymdrechion i fod yn sefydliad carbon positif, maes lle maent wedi arwain y ffordd drwy eu prosiect Carbon Positif sy'n cael ei gyflwyno i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i gynorthwyo'r uchelgaïs i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Mae **Cyngor Sir Fynwy** wedi datblygu fferm solar ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Crick a ganddi'r capasiti i gynhyrchu digon o drydan i bweru rhyw 1,400 o gartrefi. Bydd hefyd yn arbed 2,000 o dunelli'r flwyddyn o CO2 drwy gynhyrchu ynni glân adnewyddadwy ac mae **Riversimple** yn paratoi i redeg treial 12-mis o geir celloedd tanwydd hydrogen yn Sir Fynwy.



Paul Matthews
@PaulMatthews67

And for all you 'clean' transport lovers a pilot agreed between [@riversimple](#) / [@MonmouthshireCC](#) to trial 20 hydrogen powered cars for a year



Future Gen Cymru
@futuregenymru

@sophiehowe poses the question: what is the art of the possible here with the metro? @transport_wales @AndrewMorganRCT @kelliebeirne @CaerphillyCBC @TransportXtra @TransportMonth



Yn Ebrill 2018, ysgrifennais at bob **Ysgrifennydd Cabinet** yn cynnwys **Lesley Griffiths AC a Ken Skates AC** a'u cynghori y dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddilyn y pum Dull o Weithio ac ystyried yr holl nodau llesiant wrth osod cyllidebau carbon a thargedau Cymru.
- Cyflymu gweithredu ar leihau carbon dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn ogystal â meddwl ymhellach ymlaen at 2030 a 2050.
- Cytuno ar ymrwymadau gweinidogol mwy uchelgeisiol i leihau allyriadau sy'n ffurfio'r 45% sy'n weddill (h.y. sectorau anniwidiannol sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru) e.e. buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus/teithio llesol nid ffyrdd, tai/adeiladau carbon isel/sero-garbon, rheoli tir (adfer mawndiroedd/plannu coed).
- Ystyried gofynion Cytundeb Paris byd-eang sy'n anelu at gadw cynhesu i 1.5 gradd a sicrhau ymgysylltu ehangach/ymgyfraniad i drwytho gwaith yn y dyfodol.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ar 10 Gorffennaf cytunodd y Cabinet i ychwanegu datgarboneiddio fel chweched maes blaenoriaeth yn 'Ffyniant i Bawb' ar gyfer gweithio ar draws y llywodraeth

Cynllun ar gyfer Cymru Carbon Isel

Rhoddais gyngor manwl i Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad eu Cynllun ar gyfer **Cymru Carbon Isel** a gyhoeddwyd ym Mawrth 2019. Cynorthwyais y Llywodraeth i ddyfeisio matrices i gymhwyso'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r cynllun, a'u helpu i annog ymgysylltu nifer ehangach o bobl yn ogystal ac ymgystylltu ag ystod o randdeiliaid wrth ddatblygu fy nghyngor ar y cynllun.

Mae'r Cynllun yn nodi 100 o bolisiâu ar draws portffolios gweinidogol ac fel canlyniad i fy ymyrraeth, hefyd yn cynnwys tystiolaeth ar y modd y bydd gweithredu'n effeithio'n gadarnhaol/negyddol ar bob un o'r nodau llesiant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mabwysiadu'r pum Dull o Weithio i arwain a llunio'u cynllun, yn cynnwys sefydlu grŵp Cyngori ar Gyfawnder Hinsawdd i sicrhau trawsnewid sy'n deg

ac sy'n osgoi canlyniadau anfwriadol. Tra bo ystyriaeth o'r Ddeddf yn galonogol, rwy'n dal i gredu bod angen i'r Cynllun fod yn fwy uchelgeisiol ac mae'n sicr bod angen nodi sut y caiff y camau eu cyllido ynghyd ag amserlenni.

Ariannu Datgarboneiddio

Dangosodd fy ngwaith monitro'r gyllideb eleni bod oddeutu 1% o gyllid Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynorthwyo gweithredu ar ddatgarboneiddio – heb amheuaeth bydd angen i hyn gael ei gynyddu'n sylweddol i gwrdd â thargedau lleihau carbon. Argymhellais y dylai'r gyllideb egluro sut y bydd y camau a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael ei ariannu a'r lefel o fuddsoddi traws-lywodraeth a fydd ei angen i gwrdd â'n targedau, er enghraifft, mewn perthynas â thrafnidiaeth ac adeiladau. Yn y flwyddyn sy'n dod byddaf yn ymgymryd â gwaith i nodi'r ymrwymiad ariannol a fydd ei angen i gyflawni'r camau mwyaf arwyddocaol ar y newid yn yr hinsawdd.

Yn olaf, gan fod yn rhaid i ddatgarboneiddio fod yn rhan annatod o'n holl weithgareddau yng Nghymru, rwyf wedi herio cyrff cyhoeddus i ddangos sut mae'r Ddeddf yn dylanwadu ar benderfyniadau ac rydym yn eu gweld yn gweithredu mewn dulliau newydd a gwahanol e.e. buddsoddiadau, dargyfeirio pensiwn a chaffael. Yn 2019 byddaf yn cyhoeddi canllaw i gyrff cyhoeddus ar y nodau 'Cymru Gydnerth' a 'Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang' ynghyd â'r camau ymarferol ac angenrheidiol y dylent eu cymryd i helpu i gyfyngu ar eu hallyriadau carbon a chyfrannu'n gadarnhaol at ein pobl a'n planed.

(C) Cyfnewidfa Lo Caerdydd yn ei anterth
(Dd) Lawnsiad Cymru Carbon Isel 2019



Sophie Howe
@sophiehowe

This is future leadership @sleeps123 tells current leaders "we have 11 years to complete the greatest comeback in human history. Mother Nature has no voice, but you do. Be that voice. The time is now" #LowCarbonWales



“Mae'r Ddeddf yn ffordd unigryw o fynd i'r afael â heriau hirdymor ac mae'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd ac y byddant yn dilyn cynllun carbon isel ar gyfer Cymru yn dangos hynny.”

Jane Hutt AM
Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip

Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol

Newid yn y System Iechyd

Mae'r nod Cymru lachach yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod amcanion a fydd yn cyflawni *“Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael eu maxsimeiddio a lle bydd dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.”*

Ym mha fodd y mae'r Ddeddf eisoes wedi gwneud gwahaniaeth?

Mae **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** wedi cyhoeddi eu strategaeth hirdymor cyntaf (20 mlynedd). Maent wedi datgan mai eu prif gryfder mewn perthynas â'r Ddeddf fu'r ymrwymiad eang o lefel Bwrdd i lefel staff llawr gwlad, a'r gydnabyddiaeth bod angen i'r gwaith o gyflawni gwelliannau mewn iechyd a llesiant gael *‘ei sbarduno drwy roi pwyslais ar y modd yr ydym yn newid y diwylliant a ffocysu mwy ar atal, ymyrraeth gynnar a gofal cymdeithasol i gadw pobl yn iach’*. Mae Hywel Dda yn haeddiannol falch o hyn, sydd yn eu barn yn 'dangos sut yr ydym yn ceisio *“byw ac anadlu”* egwyddorion y Ddeddf yn ein busnes bob dydd’.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw'r bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru (a'r ail yn y DU) i ennill statws 'baner werdd' yn Ysbyty Glanrhyd. *“Pa fwyaf yr ydym yn ei wneud, y mwyaf yr ydym yn meddwl y gallwn ei wneud.”* Maent yn gweld statws y faner werdd fel cam cyntaf ac yn awr yn edrych am gyfleoedd mannau gwyrdd eraill, gan roi enghreifftiau o Erddi Botanegol Abertawe a gardd synhwyraidd yn Ysbyty Treforys. Dywed eu Hadroddiad Blynyddol: *“Ers i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i rym, mae cysylltiadau wedi eu ffurfio gyda chyrff eraill yng Nghymru sy'n gyfrifol am stiwardio'r amgylchedd naturiol.”*

Mae **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** yn manylu ar gynefin a daeareg eu hystadau ac yn unol â chanllawiau Ystâd Cyfeillgar i Beillwyr y GIG, wedi plannu blodau gwyllt.

Er nad yw'n gorff a enwir dan ddeddfwriaeth mae **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** hefyd yn croesawu a chymhwyso egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae **Meddygon Teulu yng Nghaerdydd** yn presgreibio'r defnydd o 'Nextbikes' i'w cleifion i annog ffordd iachach o fyw a gwella adferiad.

Mae gan **Ben-y-bont ar Ogwr** Gydlynwyr Cymunedol Lleol i helpu pobl i ddatblygu eu cryfderau, eu llesiant a'u cydnherthedd drwy greu cysylltiadau â rhwydweithiau ac adnoddau lleol. Yn ystod 2017-18 derbyniasant 116 atgyfeiriad. Gwelodd un agwedd ar eu gwaith gymorth i bobl yn symud o ofal a reolwyd, i gymorth oedd yn fwy lleol a chymunedol, ymagwedd gost-effeithiol a ryddhaodd £216k o amser gwaith i gynorthwyo galwadau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o wariant Llywodraeth Cymru'n mynd i'r GIG dywed tystiolaeth wrthym fod y rhan fwyaf o'r pethau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl y tu allan i'r gwasanaeth iechyd, ac yn berthnasol i - amodau byw, tlodi ac amodau amgylcheddol megis llygredd aer.

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 15-20% o iechyd a llesiant cenedl sy'n ddibynol ar ofal iechyd ac eto mae dros 50% o gyllideb Llywodraeth Cymru'n cael ei ddyrannu i wariant ar iechyd. Gan fod y gwasanaeth iechyd mor eang ac mor ddibynol ar ei berthynas gyllid â Llywodraeth Cymru, rwyf wedi ffocysu ar roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y modd y maent yn gweithio gyda chyrff iechyd, yn arbennig ynghylch eu cynllunio hirdymor, yn ogystal â rhoi cymorth penodol yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd.

Yn y sector iechyd, mae hyn yn cael ei orchymyn gan Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, sef dogfennau allweddol sy'n nodi cerrig milltir a champau gweithredu dros gyfnod o 1-3 blynedd. Yn dilyn fy nghyngor, mae **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, a Chaerdydd a'r Fro a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru** yn dangos tystiolaeth o ymgorffori'r Ddeddf drwy eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG 2019-22 yn awr hefyd yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys diffiniad o 'atal', dolen i'n 'Taith' sy'n annog byrddau iechyd i hunan-fyfyrion ar eu cynnydd yn erbyn y Ddeddf a naratif cryf yn y cyflwyniad: *‘Rhaid i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig ddangos tystiolaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gyda ffocws penodol ar sut y maent yn defnyddio'r 5 dull o weithio'n rheolaidd a chyfrannu at y nodau llesiant)’*.

“Cynhyrchodd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol weithdy ardderchog ar gyfer y digwyddiad diweddar ar ‘Gefnogi Cynllunio Hirdymor’ ym Mawrth 2019. Cynhyrchodd y gweithdy ddadl fywiog am ble mae pobl yn gweld eu hunain a'i gilydd, a sut y gellir defnyddio'r dechneg hon yn hawdd mewn cyfarfodydd a phrosiectau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus. Roedd cynnal y gweithdy hwn yn ystod y digwyddiad yn rhywbeth newydd a rhoddodd ddigon i'r rhai a gymerodd ran i gnoi cil arno.”

Er gwaethaf hyn, credaf y gallai'r Llywodraeth wneud mwy i sbarduno'r newid sydd ei angen i weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy alinio'u mesurau perfformio, dyraniadau cyllid a rhyngweithio o ddydd i ddydd â'r Byrddau Iechyd. Yn y flwyddyn sy'n dod byddaf yn ymgymryd â gwaith pellach i asesu sut mae'r Llywodraeth yn cynorthwyo gweithredu o fewn y Byrddau Iechyd.

Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol:

Sgiliau

O'r 381 amcan llesiant a gyhoeddwyd yn 2018 gan gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae 111 yn ymwneud â sgiliau a gweithlu ar gyfer y dyfodol – y nifer uchaf ar draws fy meysydd ar gyfer newid.

I'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus, roedd eu hamcanion yn ymroi i ymateb i alwadau'r economi cyfredol heb ffocysu ar wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar yr un pryd. Cyfyngodd y ffocws cul hwn ar gwmpas eu camau arfaethedig parthed datblygu sgiliau ac addysg. Er enghraifft, collasant y cyfleoedd i wella sgiliau mewn diwydiannau carbon-isel, gwneud yn siwr bod y cyfleoedd sydd ar gael yn gyfartal i bawb, a sicrhau bod rhaglenni'n gwella iechyd y cyfranogwyr.

I fynd i'r afael â hyn rwyf wedi bod yn ymgysylltu ag Adolygiad Arloesedd Digidol Llywodraeth Cymru ac yn ystod y flwyddyn sy'n dod, drwy bartneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd byddaf yn cyhoeddi canllaw ar y camau y dylai gyrff cyhoeddus eu cymryd i sicrhau eu bod yn paratoi eu gweithlu eu hunain drwy roi iddynt y sgiliau a fydd eu hangen arnynt yn y dyfodol.



“Anaml y caiff academyddion y cyfle i ddatblygu ymchwil gyda’r fath bartner, sy’n ymgysylltu ar lefel mor ddwfn a chyson â chanddynt mewn golwg ffordd glir a phwysig o ddefnyddio gwybodaeth newydd go iawn a gyd-gynhyrchwyd. Dyma’r union fath o bartneriaeth nodedig, seiliedig ar werthoedd a rennir sydd, yn ein barn, yn ein diffinio fel ysgol fusnes Gwerth Cyhoeddus o’r iawn ryw.”

Rachel Ashworth, Deon a Phennaeth Ysgol Fusnes Caerdydd

Sgiliau ar gyfer y dyfodol

Er mwyn deall y dyfodol, edrychodd Nesta ar effaith tueddiadau ar y gweithlu i fyny hyd at 2030 yn cynnwys awtomeiddio, yr ‘economi gwyrdd’ sy’n tyfu, a demograffeg cyfnewidiol. Rhagwelodd pa sgiliau fydd â’r mwyafrif neu’r lleiaf o alw amdanynt yn y dyfodol, gan amlygu’n arbennig yr angen cynyddol am grŵp o sgiliau ‘meddal’ a gwybyddol, yn amrywio o ddatrys problemau i sgiliau cyfathrebu a gwyddoniaeth. Mae hefyd yn debygol y bydd angen nifer cynyddol o sgiliau technegol a digidol ar draws llawer o swyddi yn y dyfodol.

“Mae’r heriau technolegol a wynebwr gan economïau blaengar yn y degawdau sydd i ddod yn cyflwyno perygl o anghydraddoldebau pellach yn hytrach na chamau i fynd i’r afael â hwynt. Mae’r holl dystiolaeth yn awgrymu y bydd y gweithwyr â’r sgiliau isaf yn gweld yr effaith mwyaf o awtomeiddio. Mae angen i ni wneud ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol yn rhan hanfodol o’n hymateb.”

David Hagendyk, Sefydliad Dysgu a Gwaith



Paratoi pobl ar gyfer y dyfodol:

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Rwyf wedi ymrwymo i helpu i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus 'â gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' fel y gellir gwireddu'r newid trefniadol ac ymarferol ymddygiadol sydd ei angen. Llynedd, treuliais lawer o amser ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i gynyddu ymwybyddiaeth drwy roi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy'r broses gynllunio llesiant.

Mae'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn symud o godi ymwybyddiaeth i sbarduno newid sefydliadol. Rwy'n eu helpu gyda'r gwaith hwn, yn cynnwys drwy ymgorffori a chynnal arfer sydd wedi ei drwytho mewn elfennau trawma ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Yn y flwyddyn sy'n dod, byddaf hefyd yn darparu Labordy Byw ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gyda **Bwrdd Iechyd Cwm Taf**. Dyma'r cymorth mwyaf manwl yr wyf wedi ei gynnig, sy'n ymwneud â gweithio a dysgu ochr yn ochr â nifer bach o gyrff a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan ffocysu ar roi cynnig ar, a phrofi ymagweddau newydd.



Ym mha fodd y mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth?

Cafwyd buddsoddiad enfawr gan yr heddlu ac **Iechyd Cyhoeddus Cymru** i sbarduno integreiddio gwasanaethau a gwasanaethau sydd wedi eu trwytho'n well mewn trawma. **Bydd Cronfa Drawsnewid yr Heddlu** gwerth £6.78 miliwn a sicrhawyd oddi wrth y Swyddfa Gartref, yn helpu i ddarparu ymagwedd aml-asiantaeth, wybodus mewn Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac atal achosion sylfaenol. Bydd y rhaglen yn dwysau'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan **Ganolfan Cymorth Cynnar Maesteg**.

Mae miloedd o weithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr cymunedol, clybiau chwaraeon, gweithwyr ieuencid a'r gweithlu troseddau ieuencid wedi derbyn hyfforddiant, ac mae traean o'r holl ysgolion wedi cael eu hyfforddi drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth. **Y Ganolfan**

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sydd i raddau helaeth yn gyfrifol am y gwelliant arwyddocaol mewn ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yr wyf wedi ei gynorthwyo, o dan gadeiryddiaeth **Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Matt Jukes**.



Mae gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** amcan llesiant i "adeiladu capasiti a chynorthwyo newid systemau, diogelu a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau" a symud at "bartneriaeth bwrpasol i ymgorffori gwaith gwybodus yn ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod". Maent wedi datblygu bartneriaeth gyda **Cartrefi Cymunedol Cymru** i nodi ymagweddau at Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod mewn tai a datblygu gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod/digartrefedd.

Gwella systemau cyllid, llywodraethu a phenderfynu sy'n sail i wasanaethau cyhoeddus:

Proses a naratif cyllideb Llywodraeth Cymru

Cyllideb Llywodraeth Cymru yw'r penderfyniad sengl mwyaf (neu set o benderfyniadau) a wneir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu hariannu, mae proses a phenderfyniadau'r gyllideb yn anfon signalau pwysig am flaenoriaethau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn dangos a yw'r blaenoriaethau hynny'n symud tuag at sylweddoli dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwy'n monitro ac asesu'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn ac yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Llynedd, cynghorais a chytunais yn llwyddiannus gyda Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, ddiffiniad o atal. Tra bydd yn cymryd amser i hyn gael ei ddeall yn llwyr ar draws y Llywodraeth, disgwyliaf weld sut mae'r diffiniad yn trwytho penderfyniadau ar wariant ac rydym yn falch i weld peth dadansoddi yn y gyllideb eleni.

Diffiniad o atal

- **Mae atal** yn golygu gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu ar y cyd y canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a manau i'w cyfrannu. Drwy eu rhannu'n bedair lefel, gall pob lefel leihau'r galw am y nesaf:
- **Atal sylfaenol** – Adeiladu cydnwethedd – creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. 'Ymagwedd gyffredinol'.
- **Atal eilaidd** – gweithredu wedi ei dargedu tuag at feysydd lle mae risg uchel y bydd problemau'n digwydd. 'Ymagwedd wedi ei thargedu'.
- **Atal trydyddol** – ymyrryd ar ôl i broblem ddigwydd, i'w hatal rhag gwaethgu a digwydd eto yn y dyfodol. 'Ymagwedd ymyrraeth'.
- **Gwariant aciwt** – Gwariant sy'n rheoli effaith sefyllfa hynod negyddol, ond sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. 'Ymagwedd adferol'.

Gwranddo ar ac Ymateb i'r Cyhoedd

Eleni, archwiliais y cysylltiadau rhwng amcanion llesiant, penderfyniadau strategol a pholisi, a'r penderfyniadau a amlinellwyd yn naratif y gyllideb. Roedd hyn yn heriol, yn arbennig gan na fedrai unrhyw un yn y llywodraeth ei weld fel cyfanwaith integredig. Cynorthwyodd Cyllid Cymdeithasol fy nhîm i edrych yn fwy manwl ar benderfyniadau oedd yn berthnasol i'r tri maes polisi trawsbynciol y cytunwyd arnynt gyda'r Gweinidog:

1. Datgarboneiddio
2. Iechyd Meddwl
3. Gofal Cymdeithasol

Cafodd y diffiniad o atal ei gynnwys yng nghyllideb 2018-19 ac roedd wedi ei gymhwyso i linellau cyllideb dethol. Cyflwynwyd naratif y gyllideb mewn dull mwy integredig, wedi ei strwythuro gan amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn hytrach na phortffolios mewn seilios. Roedd y newidiadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r cyngor a'r cymorth a ddarparwyd gan fy nhîm, oedd yn cynnwys trefnu bord gron ar atal yng Ngorffennaf 2018 gydag ystod o arbenigwyr, academyddion a swyddogion. Credaf bod hyn wedi symud atal i fyny'r ysgol a sicrhau bod y diffiniad wedi ei gytuno mewn pryd i ddylanwadu ar y gyllideb ddrafft.

Fodd bynnag, darlun cyfyngedig a gyflwynwyd gan y llinellau cyllideb a ystyriwyd yn erbyn y diffiniad o atal ac roedd yn anodd deall sut yr oeddent yn cydfynd â'r holl wariant arall mewn meysydd perthnasol. Tu hwnt i gyflwyniad naratif y gyllideb, nid oedd llawer o dystiolaeth bod penderfyniadau ar wariant yn cael eu gwneud mewn dull mwy integredig.

Cyhoeddais fy nghyngor i Lywodraeth Cymru am y newid y disgwyliaf ei weld. Gellir dod o hyn i hwn [yma](#). Y flwyddyn nesaf yn 2019-20 bydd gan Lywodraeth Cymru nifer o gyfleoedd a gorchmynion i feddwl yn wahanol am benderfyniadau ar wariant; Prif Weinidog newydd, Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, eu Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf, datganiad ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd, ac mae yna ddisgwyliad y bydd y diffiniad o atal yn cael ei ddefnyddio i lunio yn hytrach nag ymateb i gynlluniau gwariant yn y dyfodol. Byddaf yn monitro sut mae hyn yn digwydd ac yn arbennig sut mae'r Argyfwng Hinsawdd yn cael ei ariannu.

“Mae'r Comisiynydd wedi cael dylanwad pwerus ar y broses o symud Llywodraeth Cymru tuag at ymagwedd gyllidebu fwy ataliol.”

Jane Hutt AC
Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip

Caffael

Ar hyn o bryd mae £6.1 biliwn yn cael ei wario gan y sector cyhoeddus ar gaffael yng Nghymru a ganddo'r potensial i gyfrannu'n gadarnhaol (neu'n negyddol) at nodau llesiant yn cynnwys Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang a Chymru Iachach.

Mae fy ffocws eleni wedi bod ar gynorthwyo **Llywodraeth Cymru**, ond mae cynnydd wedi bod yn araf a siomedig. Er gwaethaf rhai enghreifftiau ledled Cymru, nid yw polisi ac arfer caffael wedi cydfynd â'r gofynion newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac nid yw'n glir i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yn datblygu contractau wedi eu trwytho gan y pum dull o weithio a'r saith nod llesiant.

Rwyf wedi gwneud nifer o argymhellion ar feysydd sydd angen eu gwella; gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth [yma](#). Yn ystod y flwyddyn sy'n dod rwy'n bwriadu defnyddio fy mhwerau adolygu i asesu sut mae cyrrff cyhoeddus yn ymgorffori'r Ddeddf yn eu hymagwedd tuag at gaffael.

Rwyf wedi addo gwranddo ar bob un a fedr gyfrannu tuag at wireddu'r Ddeddf. Tra nad yw gwaith-achos yn rhan o fy swyddogaeth, rwy'n ymroi i alluogi pobl i ddefnyddio'r Ddeddf yn eu rhyngweithio gyda chyrrff cyhoeddus i annog gwell ymgyfraniad a chanfod materion systemig sy'n effeithio ar fywyd pobl.

Eleni, derbyniais dros 218 o lythyron yn son am 130 o wahanol faterion, a'r prif themâu oedd trwyddedu amgylcheddol, cynllunio trafndiaeth, cynllunio defnydd tir, cwestiynau am y Ddeddf a'n gwaith, a chau ysgolion. Gweithredais ar y materion systemig canlynol y tynnwyd fy sylw atynt dro ar ôl tro:

- **WelTAG:** Mae aelodau o fy nhîm yn awr yn cynorthwyo gweithrediad y canllawiau.
- **Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol:** Yn dilyn fy ngwaith gyda **Cyfoeth Naturiol Cymru**, ysgrifennais at **Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (Lesley Griffiths AC)** i rannu fy nghafwyddiadau. Cynghorais Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad i weld i ba raddau y mae'r holl system sy'n amgylchynu caniatáu/trwyddedu yn gweithredu'n unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod gwahanol gyfnodau cynllunio, caniatáu a thrwyddedu'n llai digyswllt.
- **Llygredd aer:** Roedd llythyron am lygredd aer yn ystyriaeth allweddol yn fy mhenderfyniad i ysgrifennu at **Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol** ynghyd â **Chomisiynydd Plant Cymru** ynghylch ansawdd aer o amgylch ysgolion. Gwnaethom annog y Pwyllgor i weithredu nawr i wella ansawdd yr aer y mae plant yn ei anadlu. Trafodwyd y llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ar 2 Ebrill 2019 ac mae wedi annog y Pwyllgor i chwilio am ragor o dystiolaeth oddi wrth **Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**.

■ **Ffermio dwys:** Yn dilyn llythyron o bob cwr o Gymru, a chyfarfod gydag **Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**, tynnais sylw Llywodraeth Cymru at dwf ac effaith gronol datblygiadau ffermio dwys: *“Dylid cymryd gofal wrth ysgtyried datblygiadau ffermio da byw dwys...yn arbennig dylid ystyried effeithiau cronol (yn cynnwys llygredd sŵn ac aer) sy'n deillio o ddatblygiadau tebyg yn yr un ardal.”*

■ **Cynnig Gofal Plant (Cymru):** Ysgrifennais at y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol (Huw Irranca-Davies AC ar y pryd) am bryderon ynghylch yr amodau oedd yn atal neiniau a theidiau sydd wedi cofrestru fel gofalwyr plant i fedru cyrchu'r cynnig. Newidiwd y polisi ym Medi 2018 i ganiatáu i ofalwyr plant cofrestredig gael eu talu am ofalu am blentyn sydd hefyd yn berthynas ond nad yw'n byw gyda nhw.

“Annwyl Ms Howe, diolch am eich llythyr diweddar ac am gopiau o'r llythyron a anfonwyd at bob un o'r partion eraill â diddordeb. Mae'n galonogol i wybod bod cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud ac rydym yn cymeradwyo'r camau sydd wedi eu cymryd. Hoffwn hefyd fynegi ein diolch i chi a'ch staff am y gwaith sy'n amlwg wedi ei wneud i gyrraedd y sefyllfa hon”.

Llwyfan y Bobl

Yn ddiweddar lansiâs **'Llwyfan y Bobl'** sydd â'r nod o ddarparu cyfleoedd i unigolion i rannu eu barn a'u syniadau gyda mi ar unrhyw beth sy'n bwysig iddynt hwy p'un ai'n wasanaethau cyhoeddus neu'n faterion eraill sydd o bwys iddynt yn eu cymunedau. Yn ystod Haf 2019, yn ysbryd cydweithredu byddwn yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus i gyrchu eu storïau fel ffynhonnell ddata agored i helpu i drwytho ein gwaith. Bydd Llwyfan y Bobl yn rhan allweddol o'r modd y byddaf yn ennyn ymgyfraniad pobl yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol statudol 2020.

Effaith

Eleni mae fy nhîm a minnau wedi:

- ✓ **Fframio dadl a chael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar agenda'r** Adolygiad o Dai Fforddiadwy a'r Grant Arloesedd Tai. Gwnaethom yn glir beth yw uchelgais y Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd, sicrhau bod atal wrth wraidd cyllidebu strategol yng Nghymru a pharhau i godi ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
- ✓ **Annog ymrwymiadau oddi wrth Ysgrifenyddion Cabinet, Llywodraeth ac eraill** ar y newid yn yr hinsawdd (yn cynnwys y datganiad ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd); adolygiad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a'r cysylltiadau rhwng rheoliadau trwyddedu amgylcheddol, cynllunio a thrwyddedu. Helpu i dynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio hirdymor o fewn y sector iechyd a sicrhau ymrwymiadau oddi wrth y Llywodraeth mewn perthynas â'r modd y dylai Cynlluniau Integredig Cyngor Canolig gael eu fframio o gwmpas y Ddeddf.
- ✓ **Newid y gweithdrefnau** ar gyfer y modd y mae cynlluniau trafnidiaeth yn cael eu harfarnu drwy'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru newydd, a sut mae'r system newydd yn cael ei monitro ac yn mynd drwy'r broses graffu. Newidiais y ffordd y mae ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Tai Arloesol yn cael eu hasesu, sut mae Llywodraeth Cymru'n asesu effaith penderfyniadau ar ddatgarboneiddio ar draws y saith nod llesiant a sut y maent yn cyflwyno eu cyllideb strategol. Rwyf wedi helpu i **newid y ffordd y mae cyrff cyhoeddus eraill yn mynd o'i chwmpas** hi yn cynnwys gwella cydweithredu a chynllunio hirdymor o fewn y sector iechyd a sut mae'r Ddeddf yn cael ei hystyried gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru a'r proffesiwn cynllunio.

- ✓ **Sicrhau newidiadau** i bolisi mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio adeiladu'r M4 gan gryfhau'r ddadl yn sylweddol. Rwyf hefyd wedi **sicrhau newidiadau** i Bolisi Cynllunio Cymru (2018) gyda naratif cryf ar y Ddeddf a ffocws ar y saith nod llesiant, yn cynnwys carbon isel, cydraddoldeb, a lleihad mewn tlodi, Cynllun Cyflawni Carbon Isel y Llywodraeth, a strategaethau allweddol megis Fframwaith Cynllunio'r GIG 2019-22 a fydd yn y pen draw yn gwella canlyniadau ar gyfer pobl a chymunedau. Dylanwadais ar argymhellion yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy, ac fel canlyniad i gyfathrebu cyhoeddus helpais i sicrhau newid mewn polisi ar effaith gronol ffermio dwys a'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru.

- ✓ **Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol** ymhlith gweision sifl, arolygwyr yr Arolygiaeth Gynllunio a gweithwyr iechyd proffesiynol, yn cynnwys o'r gweithdy a gynaliasom ar y Dyfodol, ac yn y nifer o unigolion, grwpiau cymunedol a gweithredol sy'n defnyddio'r Ddeddf yn eu hymgyssylltiad â chyrff cyhoeddus. Rwyf hefyd yn cynorthwyo fy nhîm fy hunan i newid i geir trydan drwy gynllun aberthu cyflog ULEV.



Andrew Sutton
@AS_Architecture

Fascinating discussion about [#FutureGenerations](#) and [#Planning](#) in [#Wales](#) and what more is needed beyond [#PWW10](#) to further clarify and inspire.



Pwrpas 2

Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ym Mhwrpas 1, rwyf wedi amlygu meysydd polisi allweddol lle'r wyf yn gweithredu i facsimeiddio fy nghyfraniad tuag at wireddu'r saith nod llesiant. Yn yr adran hon, byddaf yn dangos sut yr wyf yn herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf.

Rwyf wedi defnyddio fy mhwerau mewn tair ffordd:

- Drwy fy mhwerau a'm dyletswyddau i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i ddarparu cyngor a monitro ac asesu cynnydd tuag at amcanion llesiant cyrff cyhoeddus.
- Drwy greu adnoddau i helpu gyda chymhwysiad y Ddeddf, gan weithio'n agos gydag **Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru** ac **Academi Wales**.
- Drwy ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth oddi wrth gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y ceisiadau hyn yn gyson drwy gydol y flwyddyn.



Dyletswyddau Statudol

Cylch Cyntaf

Monitro ac Asesu

Ers 2017, mae cynghorau, byrddau iechyd, parciau cenedlaethol, gwasanaethau tân ac achub, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru, wedi bod yn gweithio tuag at 316 o gyd-amcanion llesiant. Hefyd, cyhoeddodd byrddau gwasanaethau cyhoeddus 382 o amcanion llesiant ychwanegol ar gyfer eu 19 ardal.

Yn 2017, dadansoddais yr amcanion a osodwyd gan gyrff cyhoeddus a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus i edrych am themâu cyffredin ac enillais olygfa hofrennydd o'r modd yr oedd y Ddeddf yn cael ei gweithredu. Yn anad dim gwella llesiant economaidd a chymdeithasol eu hardaloedd oedd naws amlycaf yr amcanion hyn, gyda llai o bwyslais ar yr amgylchedd a diwylliant. Ym Mai 2018 cyhoeddwyd fy myfyrodau ar bwmpas, cynnydd a chyflymder y gwaith hwn ac ar yr hyn y byddwn yn disgwyl ei weld mewn adroddiadau blynyddol yn yr adroddiad [Llesiant yng Nghymru – y siwrnai hyd yn hyn](#).

Eleni rwyf wedi datblygu offeryn hunan-fyfyrdd mewn cydweithrediad â Swyddfa Archwilio Cymru ac ystod o bartneriaid cyhoeddus, trydydd sector ac academiaidd i fy helpu i fonitro ac asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion llesiant hyn a rhannu dysgu ymhlith cyrff cyhoeddus. Rwyf hefyd wedi gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ymgymryd ag ymweliadau ar y cyd â chyrff cyhoeddus fel rhan o'n dyletswyddau perthnasol i fonitro ac asesu. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod byddaf yn cyhoeddi adborth i bob corff ar fy nghanfyddiadau a chasgliadau ac adroddiad a fydd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob sector.

Archwiliadau ac adolygiadau

O dan y Ddeddf, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru weithredu archwiliad i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio i osod eu hamcanion a'u camau. Fy nyletswydd i yw hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac at y diben hwnnw, fonitro ac asesu i ba raddau mae'r amcanion llesiant yn cael eu cyflawni.

Rydym wedi cytuno ar raglen o ymweliadau ar y cyd â chyrff cyhoeddus, lle'r wyf wedi ffocysu ar ymweliadau sy'n berthnasol i amcanion a chamau'n ymwneud â fy meysydd ar gyfer newid. Rwyf wedi helpu i lunio'r modd y maent yn cynnal archwiliadau. Er enghraifft, mae'r 'hierarchaeth gwestiynau' a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i archwilio cyrff cyhoeddus yn seiliedig ar ein Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae eu dull o archwilio'n ffocysu mwy ar ymgyfraniad.

Ym mha ffordd y mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth?

- Edrychodd **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** ar flaenoriaethau strategol ac ar y nodau, y pum dull o weithio a'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid (a amlinellir yn y Canllaw Statudol i'r Ddeddf mewn ffordd wahanol eleni. *"Mae'r offeryn hunan-fyfyrdd wedi bod o help gwirioneddol i wneud hyn – i feddwl yn wahanol."*
- Dywedodd **Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr** eu bod yn teimlo mai mewn gwneud rhywbeth fel hyn eto'r flwyddyn nesaf yr oedd y gwerth gan ei fod wedi eu helpu i weld ble'r oeddent, a gallant edrych yn ôl.
- Dywedodd **Chwaraeon Cymru** ei fod 'wedi ein hannog i gynnal trafodaethau gonest ar draws y sefydliad am y cynnydd yr ydym wedi ei wneud. Mae'n rhoi llinell sylfaen y gallwn ystyried cynnydd yn y dyfodol yn ei herbyn. Rydyn ni'n cynllunio i ddefnyddio'r offeryn yn barhaus fel rhan o'n hadrodd chwarterol ar gynllunio busnes."
- Dywedodd **Tîm Cynllunio Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** "Gwnaeth y disgwyliadau ailfframio'n hymagwedd tuag at ein hadroddiad blynyddol e.e. y dull o adrodd, yn cynnwys astudiaethau achos sy'n torri ar draws nodau ac sy'n dangos y pum dull o weithio, y ffaith eich bod wedi disgrifio'n fanwl 'beth fydd angen i chi ei wneud a beth rwy'n disgwyl ei weld' ac yn gyffredinol y ddarpariaeth cyngor a disgwyliadau."
- Mae **Cyngor Ceredigion** yn gosod y cwestiwn o'r offeryn hunan-fyfyrdd yn eu prosesau cynllunio busnes. *"Bydd y ffordd yr ydym y paratoi ein hadroddiad blynyddol yn wahanol eleni oherwydd bu gennym yr offeryn hwn. Mae wedi bod yn ddysgu gwirioneddol."*
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** – mae'r offeryn a welwyd ar y cychwyn fel 'rhywbeth arall i'w wneud' mewn gwirionedd wedi 'rhoi fframwaith gwirioneddol ddefnyddiol ar gyfer edrych ar bethau."

Mae'n rhy gynnar i weld effaith y darn pwysig hwn o waith nad yw eto wedi ei gwblhau. Rydyn ni wedi cynnwys adborth y flwyddyn hon a byddwn yn cynnwys mwy o fanylion y flwyddyn nesaf. Rwyf eisoes yn defnyddio'r wybodaeth i benderfynu ar fy ffocws ar gyfer y dyfodol.

Dyletswyddau Statudol Cyngor ar Gerrig Milltir a Dangosyddion

O dan adran 10 o ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Weinidogion osod cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol i helpu i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Yn Ionawr 2019, cyhoeddasant y meini prawf y byddent yn eu defnyddio i ddewis cerrig milltir.

Cyn hyn ymgynghorais yn eang ar y dangosyddion ac o'r gwaith hwn cynigiais set o ddangosyddion allweddol y gellid eu defnyddio i ddatblygu cerrig milltir. Gellir dod o hyd i'm hymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth [yma](#).

Dangosydd Cenedlaethol 46

Derbyniwyd o'r newydd hefyd nad yw'r dangosydd presennol 46 yn hyfyw ac mae yna barodrwydd i gael dangosydd i gymryd ei le.

Dangosydd Cenedlaethol 46: 'Y budd cymdeithasol o fuddsoddiad partneriaethau yng Nghymru a thu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig'.

Gweithiais mewn partneriaeth â **Masnach Deg Cymru** yn gynharach eleni i ddeall diffiniad o'r dangosydd 46 gan edrych ar ddewisiadau eraill. Gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r ymgynghoriad a dderbyniodd o'r sector datblygu rhyngwladol yng Nghymru a nodi cwestiynau penodol i gael eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol 2019.



Future Gen Cymru @futuregenymru - 29 Jun 2018
@MarieBNavarro and Elen Jones lead the first stakeholder workshop - Shaping Wales' Approach to Evaluation: National Indicator 46, Social Return on Investment (SROI) what can it be, who is already doing it, how do we interpret it in line with Well-being of Future Generations Act?



Cymorth cyffredinol i gyrff cyhoeddus Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol wedi eu dylunio i gynnig anogaeth i lunio neu graffu ar y modd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, i helpu i adnabod y dewisiadau sydd wedi ystyried y pum dull o weithio ac a fyddai'n gwneud y cyfraniad gorau tuag at amcanion a nodau llesiant ac sy'n rhan allweddol o'r cyngor a roddir gennyf i gyrff cyhoeddus.

Mae'n galonogol i weld fel mae'r cynnydd yn y defnydd o fy Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer **Prosiectau Seilwaith a Dylunio Gwasanaeth** eisoes yn esgor ar newid gweithdrefnol ac ymarferol.

- Ystyriodd **Cyngor Sir Bro Morgannwg** newidiadau i wasanaethau dydd fel canlyniad i ddefnyddio fy Fframwaith Dylunio Gwasanaethau, gan sylweddoli bod angen iddynt ymarfer llawer mwy o ymgyfraniad.
- Defnyddiodd **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** fy Fframwaith i werthuso'r cynnig 'Sgiliau ar gyfer y dyfodol'. Mae hyn wedi arwain at gydnerthedd parthed y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant – nad oedd wedi ei gynnwys cyn hyn.
- Mae **Grŵp Camlas Plas Kynaston** yn enghraifft dda o'r modd y gall grwpiau cymunedol ddefnyddio'r adnoddau hyn: "Mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn offeryn delfrydol i'w ddefnyddio ar hyn, a bydd yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y prosiect yng nghanol Safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte".
- Defnyddiodd busnesau megis **Hafren Dyfrdwy** (Cwmni Cymreig Severn Trent newydd) y Fframwaith fel elfen graidd eu hachos busnes i Ofwat, ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ARUP.

Eleni, mewn cydweithrediad â **Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Rhwydwaith Penaethiaid Gwasanaethau Democraidd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** a'm pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd i fy hunan datblygais Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu i roi cymorth ar oblygiadau'r Ddeddf ar gyfer y broses graffu, swyddogaethau anweithredol a llywodraethu cyrff cyhoeddus yn gyffredinol.



"Rwyf i wir wrth fy modd i fod yn defnyddio Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn fy ngwaith fel Cyngorydd. Roeddwn i eisoes yn frwdfrydig amdano, ond rhoddodd eich gweithdy'r hyder i mi i'w gymhwyso. Byddai'n wirioneddol ddefnyddiol i gael y cyfle i archwilio sut mae angen i ni fel Cyngorwyr gymhwyso'r Ddeddf, er enghraifft, mewn cyfarfodydd craffu, yng ngrwpiau'r cyngor, grwpiau tasg a Gorffen etc."

Cyngorydd Henshaw, Cyngor Caerdydd

Heledd Morgan
@MorganHeledd

Getting ready to talk about @futuregenymru Framework for Scrutiny (working title!), the Well-being of Future Generations Act and decision making in @cardiffcouncil Been a lot of interest in this work since @GoodPracticeWAO event last year! The Framework will be published soon...



Dyfodol

Yr angen i gyrff cyhoeddus dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn y maent yn ei wneud yw sylfaen allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cael ei adlewyrchu yn fy nyletswydd gyffredinol.

Rwyf wedi recriwtio swydd ar y cyd â **Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gynorthwyo fy nhîm a chyrrff cyhoeddus ar y gwaith sy'n ymwennu â'r dyfodol a meddwl yn yr hirdymor a datblygu sgiliau yn y maes hwn drwy fabwysiadu ymagwedd 'dysgu drwy weithredu'. Mae hyn wedi cynnwys cynnal y gynhadledd genedlaethol gyntaf erioed yn canolbwyntio ar y Dyfodol mewn partneriaeth â **Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru**.



Rydyn ni wedi ymgysylltu ag arbenigwyr ac ymarferyddion ar y dyfodol o bob cwr o'r byd i ddysgu am eu gwaith a'i berthnasedd i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae rhai o'r bobl yr ydym wedi creu cysylltiadau newydd â nhw yn cynnwys **Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU** a **Dr Claire Craig CBE**, oedd yn arfer arwain eu hadran ar faterion yn ymwneud â'r dyfodol; Futuribles, melin drafod yn ymwneud â'r dyfodol yn Ffrainc; Bill Sharpe a Graham Leicester o'r International Futures Forum; a Cat Tully, **Cyd-Sefydlydd Ysgol Dyfodol Rhyngwladol**.

Wrth symud ymlaen bydd dulliau'r dyfodol ac ymagweddau'n cael eu hymgorffori ym mhopeth y byddaf yn ei wneud, yn amrywio o Labordai Byw a theithiau'r Gallu i Greu i'n cyngor polisi ar dai, sgiliau a iechyd, yn ogystal â thrwytho fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 a chylchoedd asesiadau llesiant yn y dyfodol.

“Rhoddodd y gynhadledd rai o'r offerynnau a'r technegau i mi i gymhwyso gwaith y dyfodol a'r anogaeth i fwrw ati”




Ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth

Ochr yn ochr â cheisiadau am gyngor oddi wrth aelodau o'r cyhoedd mae fy swyddfa'n derbyn nifer cynyddol o geisiadau o flwyddyn i flwyddyn am gyngor a chymorth oddi wrth gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill.

Yn 2018-19 derbyniais dros **183 o wahanol geisiadau** am help, 52% ohonynt oddi wrth gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf. Daeth eraill o blith: cymdeithasau tai, cyrff proffesiynol, prifysgolion a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae'n glir bod yna alw mawr iawn am gyngor a chymorth ar gymhwyso'r Ddeddf ac mae gallu fy swyddfa i gwrdd â'r galw hyn yn gyfyngedig oherwydd yr adnoddau sydd ar gael i mi. Am y rheswm hwn, rwyf wedi dyfeisio meini prawf i benderfynu a ddylwn helpu, ac os felly pa lefel o gymorth fedraf ei roi:

Ffigwr 2:





O'r ceisiadau yr wyf wedi eu derbyn, roedd tua hanner ohonynt yn medru cael eu cynorthwyo drwy eu cyfeirio at /neu drwy addasu adnoddau oedd yn bodoli eisoes, neu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Ar gyfer y lleill rhoddodd fy nhim gymorth mwy manwl wedi ei deilwra. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn – er enghraifft fy nghyngor ar yr Adolygiad Tai Fforddiadwy, WeTAG ac ymgymryd â Labordy Byw (fy lefel uchaf o gefnogaeth) gyda **Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr**.

Mae ceisiadau eraill yr wyf wedi eu cynorthwyo'n cynnwys:

■ Hyfforddiant ar fy Fframwaith Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghorau **Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Caerdydd, Bro Morgannwg a Chaerffili**. Mae adborth a dderbynasom o'r sesiynau hyn yn cynnwys: "Gwnaethom ddefnyddio'r deunyddiau hyfforddi ac roedd yr aelodau etholedig o'r farn bod y sesiwn a'r deunyddiau mor dda fel y dylent fod yn orfodol i bawb."

■ Cyfrannu tuag at Grŵp **Llywio Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru** ar eu polisi buddsoddi rhanbarthol newydd (cronfeydd strwythurol newydd yr UE).

■ Darparu cyngor i **Ymddiriedolaeth GIG Felindre** ar ymgorffori ei amcanion llesiant.

■ Cynghori **Chwaraeon Cymru** i weld a oedd y Camau yn eu Cynllun yn unol â'u dyletswyddau. Gwneuthum eu cynorthwyo i wneud y saith nod llesiant yn greiddiol i'w 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' a lansiwyd yn 2018.

■ Cyfrannu at Gynllun Rheoli **'Cynllun Eryri - Parc Cenedlaethol Eryri'** – roedd hyn yn ymwneud â chael y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid i ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Fel canlyniad, mae'r adroddiad drafft yn cynnwys themâu a chysylltiadau a wnaed ar draws y saith nod llesiant a'r pum dull o weithio.

■ Darparu cyngor ar **Gynllun Sgiliau Rhanbarthol Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** a'r arolwg o sgiliau cyflogaion. Amlygais y risgiau oedd yn gysylltiedig â'u ffocws ar y pum sector blaenoriaethol, gydag ychydig neu ddim ffocws ar bethau megis ynni (fel un enghraifft), er gwaethaf y cyfeiriad yr oedd targedau datgarboneiddio'n teithio tuag ato. Mae'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol wedi ei osod am 3 blynedd ond mae'r arolwg sgiliau cyflogaion yn flynyddol, and felly rwyf wedi sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n well y cwestiynau am gynaliadwyedd, twf gwyrdd a lleihau allyriadau.

■ Yn berthnasol i hyn, gwneuthum gynorthwyo **Swyddfa Archwilio Cymru** gyda'u 'Hadolygiad o Drefniadau a oedd yn cynorthwyo Penderfyniad Buddsoddi Cyntaf Cyngor Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd'. Anogodd hyn argymhelliaid 'y dylai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei hystyried drwy gydol gwerthusiad y prosiect yn hytrach nag ar ôl y digwyddiad".



■ Cynghori'r **Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant** ar y Ddeddf i alluogi ei aelodau i'w chyflawni mewn cynlluniau cynllunio trafniadaeth (gan gefnogi fy ngwaith ar WeTAG).

■ Helpu'r **Ysgol Cynaliadwyedd Cadwyn Gyflenwi** ar eu modiwl e-ddysgu i gynorthwyo diwydiant adeiladu i gydymffurfio â'r Ddeddf (gan gefnogi fy ngwaith ar dai, datgarboneiddio a chaffael).

■ Cynorthwyo'r **Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol** ar ymgysylltu cyhoeddus (gan gysylltu â fy ngwaith ar gynllunio defnydd tir).

Rwyf hefyd wedi darparu cymorth parhaus i'r 19 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus drwy sesiynau datblygu a gyflwynir gan **Academi Wales, Llywodraeth Cymru** ac eraill, ac rwyf wedi datblygu offeryn i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus i feddwl yn yr hirdymor.

“Roedd eich cyngor yn cynnwys digonedd o syniadau gwirioneddol ddefnyddiol a fedraf eu darllen i gynyddu fy ngwybodaeth ac ysbrydoli ein byrddau syniadau”

Aelod o Dîm Byrddau Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam

“I mi, roedd yn hynod o ysbrydoledig a defnyddiol. Yn arbennig ar y diwrnod; roedd gen i wir ddiddordeb yn esboniadau Horizons 1, 2 a 3 yn seminar Cenedlaethau'r Dyfodol. Y noson honno tynnais lun o'r graff i fy mhartner, y diwrnod wedyn gwneuthum yr un fath i fy rheolwr llinell... Rwy'n siwr y byddaf yn ei ddefnyddio eto lawer gwaith yn y dyfodol!”

Katie Mallam, Cynllun Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan



Cyngor Manwl, Arloesol

Labordai Byw

I sbarduno newid o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, rwy'n dymuno medru gweithredu'n ogystal â thrafod ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus. Rwyf felly'n datblygu fy nghysyniad o 'Labordai Byw' sy'n ymwneud â gweithio a dysgu ochr yn ochr â nifer bach o gyrff neu fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i brofi ymagweddau newydd, yn arbennig o fewn fy meysydd ar gyfer newid.

Labordai Byw

Proses greadigol yw 'Labordy Byw' yr wyf yn ei ddefnyddio:

- I ddod a gwelliannau arwyddocaol i lesiant
- I archwilio problemau cymhleth a chyfleoedd o bersbectif cenedlaethau'r dyfodol
- I herio'r ymagwedd 'busnes-fel-arfer'
- I brofi ffyrdd o gyflawni newidiadau arwyddocaol mewn dylunio polisi a gwasanaethau

Eleni, rwyf wedi cynnal prosiect peilot gyda **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** i archwilio sut i atal a mynd i'r afael â gordewdra. Mae gordewdra'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy oherwydd fod lefelau'n cynyddu, ac yn gynt nag mewn rhannau eraill o Gymru. Mae angen i ni weithredu'n wahanol os yr ydym i wyrddroi'r tueddiad hwn.

Mae pob bwrdd iechyd yn wynebu galw enfawr sy'n cynyddu, pwysau a welir yn aml fel rhwystr i ymgorffori'r Ddeddf. Mae fy nhîm wedi bod yn sensitif i hyn drwy fuddsoddi amser mewn adeiladu ymddiriedaeth a dealltwriaeth. Gwnaethom ddwyn at ei gilydd 14 sefydliad ac 11 'arloeswr' o Iechyd **Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuencid, TYF, academyddion o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Glyndŵr**, a chwmselydd ysgol a rhiant maeth, i fynd i'r afael â gordewdra mewn cyfres o sesiynau cwmpasu, dwys, yn ymwneud ag ymglyfrannu a datrys problemau.

Cynhyrchodd y Labordy Byw gyfres o gamau i'w hystyried gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy** a chyrff cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun gweithredu mewnol ac yn edrych sut fedr proses y Labordy Byw drwytho'u pecyn cymorth ar gyfer ail-ddylunio gwasanaeth, a chwrs arweinyddiaeth.



“Amser i feddwl a chael ein herio mewn man diogel”

“Diddorol iawn i drafod gydag eraill â phersbectifau, sgiliau a mentrau gwahanol”

“Atyniadol iawn, ffordd dda o gael amrywiaeth ehangach o syniadau”

“I'r Bwrdd Iechyd mae hyn wedi cyflwyno dull newydd o weithio”

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod newid yn cael ei wireddu drwy'r ffactorau canlynol, sydd wedi eu hymgorffori ym mhroses y Labordy Byw:

- Arweinyddiaeth gryf a gweladwy yn aml gyda ffigwr allweddol
- Mabwysiadu ymagwedd hirdymor gyda nodau realistig
- Ymyrraeth ar aml-lefelau ac ar draws sectorau
- Mynd i'r afael â ffactorau amgylcheddol ac unigol
- Perchnogaeth a chyfranogiad cymunedol yn mobileiddio asedau a chyfleoedd cymunedol
- Ymagwedd hyblyg sy'n esblygu a newid
- Cyfathrebu a marchnata cryf
- Dysgu am weithredu a gwerthuso hirdymor cadarn

Yn ystod y flwyddyn sy'n dod byddaf yn datblygu'r model hwn, gan ddysgu mwy o'r hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd, yn y labordy byw cyntaf hwn.



Effaith

Eleni mae fy nhîm a minnau wedi:

- ✓ **Fframio trafodaeth a chael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr agenda** mewn perthynas â'r modd yr ydym yn mesur cynnydd, y dyfodol a'r angen i feddwl yn y tymor hwy ar y gwahaniaeth rhwng ymgyfrannu ac ymgynghori. Sicrhawyd hefyd fod materion megis cydnherthedd yn wyneb y newid yn yr hinsawdd, y Gymraeg a diwylliant ar agenda Cynllun Sgiliau Rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r arolwg o sgiliau cyflogaion.
- ✓ **Annog ymrwymiadau cynhwysfawr** oddi wrth y Llywodraeth mewn perthynas â chyhoeddi Cerrig Milltir a Dangosydd 46, hefyd oddi wrth Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid i ddefnyddio'r Ddeddf i fynd i'r afael â gordewdra.
- ✓ **Newid y gweithdrefnau** yn cynnwys y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n ymgymryd â'i achwiliadau o dan y Ddeddf a'r modd y mae rhai cyrff cyhoeddus wedi ennyn ymgyfraniad pobl. Mae fy nghylch cyntaf o fonitro ac asesu hefyd wedi newid y ffordd y mae rhai cyrff cyhoeddus yn cynllunio ymlaen llaw ac yn adolygu cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant a'u hamcanion llesiant hwy eu hunain.
- ✓ **Effeithio ar gynnwys polisi** ac ymrwymiadau mewn ystod eang o gynlluniau corfforaethol, strategaethau rheoli a pholisïau fel canlyniad i ymateb i dros 70 o geisiadau am gymorth.
- ✓ **Dylanwadu ar newid mewn ymddygiad ymarferol** o fewn busnesau, cymunedau a chyrrff cyhoeddus a welir yn y cynnydd yn y defnydd o Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau, Dylunio a Chraffu ar Wasanaethau, ac fel canlyniad i weithdai ar 'y dyfodol'.



Pwrpas 3

Creu Mudiad dros Newid

Rwyf wedi neilltuo llawer o amser eleni'n adeiladu partneriaethau a fydd yn datblygu 'mudiad dros newid' o fewn y sector cyhoeddus a thu hwnt, lle bydd pobl yn hyrwyddo ymagwedd Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen ar lawr gwlad.

Ysbrydoli, Dylanwadu ac Ymggyfrannu

Rwyf wedi parhau i ffocysu ar godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf o fewn cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig iddi, ond hefyd ymhlith arweinwyr a staff rheng flaen ac unigolion o bob cwr o Gymru a thu hwnt.

Rwyf yn bersonol wedi cynnal 85 o ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, yn amrywio o anerchiadau allweddol neu gyflwyniadau mewn cynadleddau, cyfraniadau mewn sesiynau bord gron, gweminarau, paneli, seminarau, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a llawer o ddigwyddiadau anffurfiol, gyda fy nhim yn cymryd rhan mewn llawer mwy. Rwyf wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o sectorau yn cynnwys: adeiladu, academia, busnes, celfyddydau a diwylliant, chwaraeon a hamdden, y trydydd sector, grwpiau amgylcheddol, iechyd, tai, trafnidiaeth a gofal cymdeithasol. Ac ym mis Hydref 2018 cynhaliais fy narlith flynyddol gyntaf fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Cafodd hon ei chyflwyno gan sefydlydd **Big Issue, yr Arglwydd John Bird, 'Yn and Yáng: Investing in Today for a Better Tomorrow'**.



Awen CEO
@Awen_CEO

We've been saying it for years! Must also think beyond physical activity and include services like libraries and culture that do so much to tackle social isolation and improve mental wellbeing. Da iawn @sophiehowe



NHS could 'keep leisure centres open'

Roedd cyrhaeddiad fy ngwaith yn fyd-eang: o ysgolion cynradd fel **Ysgol Gynradd Millbrook** yng Nghymru, i **Uwchgynhadledd Llywodraethau'r Byd** yn Dubai; o siarad yn lansiad Llewyrch i Bawb: Cymru Carbon Isel yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd i Fforwm **Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenedloedd Unedig** yn Efrog Newydd. Mae'n amlwg fod y diddordeb yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymestyn ymhell tu hwnt i'r rhai sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth.



What has the Future Generations Act done for Wales?

By Sarah Dickens
BBC Wales economics correspondent

10 May 2018



Chris Lines
@Lineschris

The most brilliant way to start the year. I've watched @sophiehowe give her @futuregencymru TEDx talk to @WelshGovernment staff on being a badass and working for future generations #WFGAct

It needs to be on YouTube so we can all be inspired.



Melanie Jane Edgar
@agroecofarm

"Well-being of future generations act taking a holistic approach to environmental management" @JacobDEllis representing @sophiehowe @futuregencymru at #N4FG18 - it'll be fascinating to see how this legislation promoting long term planning impacts agricultural policies @BESPolicy

Meet the world's first 'minister for future generations'

The Welsh government has given Sophie Howe statutory powers to represent people who haven't yet been born



▲ Sophie Howe speaking at the All Wales Scouts Camp, Jamboree Photograph: Future Generations Commissioner for Wales

Sophie Howe is a public servant with a particularly tricky constituency. The people she represents are remote and unresponsive and they never show up to voice an opinion or tell her if she's doing a good job.

They don't even vote. That's because they haven't yet been born. Howe is the



“Sophie, diolch yn fawr am siarad mor gefnogol yn lansiad Siarter Teithio Iach. Yn bersonol, mewn nifer o ddigwyddiadau, rwyf wedi eich clywed yn siarad am y modd y dylai'r Ddeddf alluogi pobl i wneud y peth iawn – hyd yn oed pan fydd hynny'n mynd yn groes i ddwylliant ac arferion cyffredinol – a'ch bod chi a'ch swyddfa yno i hyrwyddo a chynorthwyo'r bobl hynny. Mae'r neges hwnnw'n wirioneddol bwerus ac yn helpu newid i ddigwydd – felly diolch”

(Dr Tom Porter, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, yn arwain ar Deithio Iach Caerdydd)



Inspiring presentation from @futuregencymru. Clear and lucid links between protecting our environment, creating the conditions for health and valuing both our heritage and future #N4FG18



Y Gallu i Greu

Sefydlais y Gallu i Greu i fanteisio ar gyd-ddeallusrwydd pobl a sefydliadau o bob cwr o Gymru i egluro ac archwilio goblygiadau ymarferol oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus wrth facsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant.

“Bydd y Gallu i Greu yn gosod y sylfeini ar gyfer dehongli, a gweithredu ar y nodau llesiant a thaflu goleuni ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd”

Yn 2018-19 mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu model o newid o'r enw 'teithiau' ar gyfer pob un o'r saith nod llesiant, gan fanylu ar brif elfennau pob nod a rhoi rhestr o gamau y gellid eu cymryd i gyflawni'r nodau – o'r syml i'r uchelgeisiol. Mae hwn hefyd yn cynnwys corff o arfer da ac adnoddau y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio i ddangos sut mae eu hymddygiad a'u gweithrediadau'n unol â'r Ddeddf, y bydd fy swyddfa'n eu monitro dros amser. Cyhoeddais y cyfnod cyntaf yn y teithiau hyn fel 'Newidiadau Syml', a'u rhannu gyda chyrrff cyhoeddus a gofyn am adborth.

Mae'r newidiadau syml:

- Yn gyflym, hawdd a diboen.
- Yn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd gadarnhaol
- Yn gwneud yr hyn a ddywedir ar y tin, gyda risg isel o fethiant
- Yn mobileiddio ac ennyn ymgyfraniad pobl
- Yn adeiladu ymddiriedolaeth a chyfleoedd ar gyfer ymgyfrannu
- Yn alinio agendâu o wahanol sefydliadau ac adrannau

Partneriaid y Gallu i Greu oedd:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Masnach Deg Cymru a Hub Cymru Africa
- Interlink RCT
- Canolfan Cydraddoldeb a Hawiliau Dynol y GIG
- Chwaraeon Cymru
- United Welsh
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru

Fel corff cyhoeddus, fe ddylech chi...

Cymeru a/n gyfrifol ar lefel hyd-eang Defnyddio papur a ailgylchwyd yn unig a gosod dyddiad ar gyfer bod yn rhydd o bapur. Wrth argraff, symud i gyfeiriad defnyddio inc a wnaed o soy yn unig. <u>Darllen Mwy</u>	Cymeru a/n fwy cyfartal Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod a laith arwyddo Prydeinig (BSL) ar gyfer eich rheng flaen <u>Darllen Mwy</u>	Cymeru iachau Ystyried sut y gallwch sicrhau fod gan blant fynediad i chwarae awyr-agored beunyddiol <u>Darllen Mwy</u>
Cymeru i diwylliant bywiog lle mas'r Cymraeg yn Fyfrau Gwneud yn siŵr fod mynediad rhad ac am ddim i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a llecynnau glas yn parhau <u>Darllen Mwy</u>	Cymeru iachau Darparu loceri ar gyfer eich gweithwyr <u>Darllen Mwy</u>	Cymeru a/n gyfrifol ar lefel hyd-eang Cyfrifo a deall ôl troed carbon eich sefydliad <u>Darllen Mwy</u>

Astudiaeth Achos

Pwy sy'n gwneud hyn?

Ffrind i mi

Mae nifer o brosiectau llwyddiannus sy'n pontio cenedlaethau'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hyd a lled Cymru. Yng Ngwent, mae'r fenter Ffrind i mi, yn rhedeg Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a phartneriaid eraill, sydd wedi datblygu o brosiectau i helpu pobl sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig i ail gysylltu â'u cymunedau drwy ddefnyddio prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau. Yn Aberhonddu, mae'r grŵp cymunedol sydd wedi helpu'r dre i ddod yn gyfeillgar i Dementia hefyd yn rhedeg prosiect parhaus sy'n pontio'r cenedlaethau rhwng Ysgol Gynradd Llanfaes a chartref gofal Trenwydd. Mae'r bartneriaeth hon wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ers rhyw 2 flynedd.

Ymatebodd 30 o'r 44 corff cyhoeddus oedd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Ar gyfartaledd, mae 71% o'r Newidiadau Syml eisoes wedi eu mabwysiadu neu'n 'cael eu datblygu' gan y 30 corff cyhoeddus a atebodd. Mae oddeutu 12% yn cael eu hystyried ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol. Y Newidiadau Syml o dan y nodau 'Ymggyfrannu' a 'Cymru Iachach' oedd y rhai a fabwysiadwyd gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, a'r nod 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu' oedd â'r gyfradd fabwysiadu isaf, a hyn yn dangos bod cyrff cyhoeddus, efallai, yn dal i'w chael hi'n anodd meddwl am biler diwylliannol llesiant.

Y Newidiadau Syml isaf eu mabwysiad oedd:

- Gosod targedau ar gyfer cadw menywod sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth (Cymru Fwy Cyfartal)
- Hyrwyddo rhannu-swydd ar gyfer cynrychiolwyr etholedig e.e. Cynghorwyr (Cymru Fwy Cyfartal)
- Archwilio potensial credydau amser yn eich sefydliad (Cymunedau Cydlynus)

Wrth i mi symud i mewn i fy mhedwaredd flwyddyn, rwy'n disgwyl i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud a symud o fabwysiadu newidiadau syml tuag at bolisiau a chynlluniau sy'n fwy uchelgeisiol a thrawsfurfio. Byddwn yn cyhoeddi'r 'teithiau' mwy manwl yn gynyddol wrth i gyfleoedd ymddangos yn 2019. Ni fydd effaith y rhaglen hon yn dod yn wirioneddol amlwg ar unwaith ond dylai newid gychwyn ymddangos yn ystod 2019-20.

Ym mha fodd y mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth

Newid Symbl 7

Archwilio dewisiadau cyllid neu gynorthwyo grwpiau cymunedol, i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir cyhoeddus.

Mae gan **Gyngor Caerdydd** gunllun i adeiladu fferm solar a fyddai'n cynhyrchu £21m o ynni gwyrdd dros gyfnod o 35 mlynedd.

Newid Symbl 10

Ystyried y cyfleoedd i secondio staff o fewn a rhwng sefydliadau, i rannu gwybodaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** annog cyfnewid cyflogaeth mewn dull priodol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a gyda sefydliadau eraill. Drwy fyrrddau gwasanaethau cyhoeddus Torfaen, maent yn cyfrannu tuag at ariannu'n rhannol seondai MSc o Academi Wales.

Newid Symbl 17

Mapio tir cyhoeddus i nodi a rhoi cyhoeddusrwydd i dir sy'n hygyrch i'w ddefnyddio gan grwpiau cymunedol, gyda'r nod o gysylltu cynefinoedd bywyd

Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd (sy'n cynnwys canllaw ac enghreifftiau ar gyfer seilwaith gwyrdd) ac wedi datblygu offeryn cynllunio defnydd tir (rhan o brosiect Cronfa Natur yng Nghastellmartin i edrych ar gyfleoedd ar gyfer cysylltedd.

Newid Symbl 21

Caffael a phlannu coed brodorol fel y dewis cyntaf

Mae **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** yn ystyried datblygu partneriaethau gydag elusennau ac mae **Cyngor Sir Powys** yn dymuno plannu dwy goeden am bob coeden sy'n syrthio fel canlyniad i'w gweithgareddau.

A large group of people, including staff and students, posing for a group photo in a school hallway. Many are holding small, colorful signs with various symbols and text, likely related to the 'Be Kind' campaign. A banner for 'Crest Community School' is visible in the background.

Ym mha fodd y mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth?

Here are some examples of how organisations are embracing the Act.

- Mae **Hafren Dyfrdwy** (Cwmni Cymreig newydd 'Severn Trent') wedi defnyddio fy Framwaith Cenedlaethau'r Dyfodol fel un o elfennau craidd eu hachos busnes i Ofwat.
- Mae **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru** wedi cynnig bod y diwydiant adeiladu'n cael ei ystyried fel y 45fed corff a enwir yn y Ddeddf. Byddant yn datblygu amcanion llesiant ar gyfer y sector a dull o fonitro cynnydd.
- Mae **Kingspan Insulated Panels** wedi gosod targed iddyn nhw eu hunain i ddod yn gwmni Ynni Sero Net erbyn 2020. Maent eisoes wedi cyrraedd 75% o'u targed ac mae 100% o'u hynni ar eu safle gweithgynhyrchu yn Nhreffynnon yn adnewyddadwy. Mentrau eraill sy'n cefnogi eu cyfraniad tuag at y Nod Cymru Gydnerth yw'r rhai sy'n macsimeiddio eu hadnoddau'n effeithlon heb anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, a hyn i gyd hefyd yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd gweithgynhyrchu a phroffidioldeb.
- Mae **Pobl Group** wedi lansio'r 'Pobl Academy', rhaglen ddatblygu gyrfa dwy flynedd i helpu pobl ifanc nad ydynt efallai wedi cael y cyfle i adeiladu gyrfa oherwydd ystod o rwystrau cyffredin. Drwy'r 'Academy', gall Pobl recriwtio pobl o gefndiroedd mwy amrywiol, adeiladu gweithlu sy'n adlewyrchu a deall yn well y cymunedau a wasanaethir ganddo ac sy'n helpu pobl ifanc i gael gwaith o safon.

- Mae **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** wedi datblygu set gynhwysfawr o adnoddau a addaswyd ar gyfer y trydydd sector a grwpiau cymunedol i annog a chynorthwyo gweithredu'r Ddeddf.
- Mae gan **Goleg Cambria** Gynllun Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cael ei danategu gan y saith nod llesiant. Dywedodd Jack Sargeant, Aelod y Cynulliad dros Alyn a Dyfrdwy "Maent yn amlwg yn cydnabod pwysigrwydd y Ddeddf a'r cyfleoedd a gyflwynir ganddi".
- Nid yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru** yn dod o dan y Ddeddf ond maent wedi dangos brwdfrydedd aruthrol dros gymhwyso'i hegwyddorion.
- Dywedodd Prifysgol Lerpwl:** "I ni roedd y syniad o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'i gweithrediad drwy'r Comisiynydd yn arbennig, yn peri i ni feddwl yn ddwys. Bydd edrych ar faterion mewnol drwy'r lens hon yn rhoi mewnwelediad newydd wrth i ni ddatblygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ni ein hunain".



Darllenwch fwy

Adrodd Gwirfoddol Cenedlaethol

Mae fy swyddfa wedi bod yn cynghori Llywodraeth Cymru i baratoi ymateb i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU oherwydd ein bod yn y sefyllfa unigryw yng Nghymru mewn cymhariaeth â gwledydd eraill y DU. Pwrpas y fath adolygiadau gwirfoddol yw amlygu cynnydd y mae Aelod-wladwriaeth y Cenhedloedd Unedig yn ei wneud tuag at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Gwnaeth Cymru ddistyllu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn saith nod llesiant a deddfu i roi llesiant wrth galon ein polisïau. Mae'r saith nod llesiant yn cael eu mapio yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a gellir eu gweld [yma](#).

Trefnodd a hwylusodd fy swyddfa ddwy uwchgynhadledd Nodau Datblygu Cynaliadwy i randdeiliaid yn Ionawr 2019 i gasglu a chyfrannu tuag at ddrafftio ein hymateb. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Fforwm Wleidyddol Lefel Uchel yn Efrog Newydd yng Nghorffennaf 2019. Gwnaethom weithio hefyd gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Adoddiad Atodol Cymreig a fydd ar gael nes ymlaen yn 2019.



Proffil Rhyngwladol: Dwyn Cymru i'r byd...

Mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal i fod yr unig ddeddfwriaeth o'i bath yn y byd ac fe'i hystyrir fel enghraifft flaenllaw i eraill gan y Cenhedloedd Unedig.

Rwyf wedi rhyfeddu ac ymfalchio yn ymateb sefydliadau, llywodraethau ac unigolion ledled y byd i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n parhau i ysbrydoli ac effeithio'n rhyngwladol ar newid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cwrdd â nifer o swyddogion llywodraeth a sefydliadau rhyngwladol i amlygu'r gwaith a wneir gan Gymru mewn perthynas â llesiant a datblygu cynaliadwy. Mae'r heriau byd-eang sy'n wynebu ein gwlad yn gymhleth a chânt eu rhannu gan lawer o gwmpas y byd. Rwy'n gweithio'n galed i ddysgu oddi wrth eraill a rhannu ein gwaith i wella'r cymorth a roddir gennym i gyrff cyhoeddus yma yng Nghymru.

Dyma rai o'r enghreifftiau o'r modd yr ydym wedi codi proffil rhyngwladol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Fi yw **Cadeirydd y Rhwydwaith o Sefydliadau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol (NIFG)** – corff o gomisiynydd tebyg i'w gilydd, neu gyrff â chyfrifoldebau dros gynrychioli anghenion cenedlaethau'r dyfodol ledled y byd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi cyfrannu tuag at gynorthwyo aelodau ac wedi cyd-gynhyrchu papur polisi i'w gyflwyno i'r Cenhedloedd Unedig yng Ngorffennaf ac annog gwledydd eraill yn y byd i fabwysiadu deddfwriaeth debyg a sefydliadau annibynnol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Darllenwch fwy

Darllenwch fwy

- Yn Nghorffennaf 2018, anerchais **Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig**, yn Efrog Newydd. Fforwm blynyddol yw hwn sy'n olrhain cynnydd tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Cefais y cyfle i drafod y gwersi yr ydym wedi eu dysgu yng Nghymru am 'beidio gadael neb ar ôl,' sydd yn fy marn yn egwyddor hollbwysig yn neddfwriaeth Cymru.

Darllenwch fwy

Darllenwch fwy

- Yn Chwefror 2019, cyflwynais araith allweddol yn **Uwchgynhadledd Llywodraethau'r Byd** yn Dubai, Emiraethau Arabaidd Unedig ar wahoddiad Gweinidog Hapuswydd a Llesiant yr Emiraethau Arabaidd Unedig.



Darllenwch fwy

- Cyflwynais araith allweddol drwy gyfrwng neges fideo i **Bumed Cynhadledd Fyd-eang Seneddwy'r Ifanc yn Azerbaijan** ar wahoddiad yr Undeb Rhyng-Seneddol.



- Yng Ngorffennaf 2018, cynhaliodd fy Nghyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd, Marie Brousseau-Navarro weithdy ar gyfer Swyddfa'r Prif Weinidog a chynrychiolwyr **Llywodraeth Seland Newydd** gan rannu ein profiad ar y dyfodol a meddwl hirdymor yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwnaeth hefyd gyflwyno darlith agored ym Mhrifysgol Victoria, a drefnwyd gan Jonathan Boston, Athro Polisi Cyhoeddus ym **Mhrifysgol Victoria** (Wellington, Seland Newydd) a groesawyd gennym i Gymru'n ddiweddarach i rannu'r hyn a ddysgasom.



Darllenwch fwy

“Mae'r ddeddfwriaeth (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn nodedig yn nhermau ei hehangder, ei chwmpas a'i huchelgais. Nid oes unrhyw beth sy'n union yr un fath â hi yn bodoli yn y byd ar hyn o bryd. Mae swm a sylwedd y gwaith a wnaethpwyd gan y Comisiwn mewn cyfnod byr iawn wedi gwneud argraff fawr arnaf, y modd y maent wedi ceisio rhoi mynegiant i'r ddeddfwriaeth a gwneud iddi weithio. Ymddengys i mi fod y Comisiynydd, Sophie Howe, wedi arwain tîm cryf iawn o bobl, sydd, heb amheuaeth, wedi gweithio'n galed iawn ac wedi bod yn arloesol iawn yn y modd y maent wedi mynd i'r afael â'r dasg o geisio rhoi mynegiant i'r Ddeddf. Credaf, yn eich ffordd chi o siarad 'y byddai rhywun y codi ei het i chi'. Rwy'n siŵr bod Cymru'n mynd i fod yn un o'r goleudai ar y gorwel a fydd yn oleuni disglair, perthnasol i lawer iawn o awdurdodaethau eraill”

Yr Athro Jonathan Boston



Yn ddiweddar cyfarfûm a Daniella Tilbury, **Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy Gibraltar**. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i'w chynorthwyo yn ei rôl a chynnig cyngor ar weithredu ymhellach ddeddfwriaeth debyg yn Gibraltar.

“Mae'r Ddeddf i Ddiwygio'r Ddeddf Datblygu Cynaliadwyedd Ffederal (Bil C-57) newydd dderbyn cydsyniad brenhinol. Bydd y ffocws yn symud o 'amgylchedd' yn unig, i ddatblygiad cynaliadwy a gyda chysylltiad agosach â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.”

(Julie Gelfand, Comisiynydd yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Canada)

... a'r Byd i Gymru

Rwyf wedi croesawu sefydliadau ac unigolion o nifer o wledydd i Gymru i rannu eu dysgu gyda mi, yn cynnwys **Olivier Cadic** (Seneddwr Llywodraeth Ffrainc), **Peter McKinlay** (Melin Draffod Llywodraeth Leol Seland Newydd), dirprwyaeth o **Feiri Tseiniaidd** a **Mark Ryskell** (MSP Plaid Werdd yr Almaen).

Rwyf hefyd wedi cael fy nghyflwyno i nifer dethol o **Ddiplomyddion Swyddfa Dramor a Chymanwlad**. Yn dilyn fy ymweliad ag Uwchgynhadledd Llywodraeth y Byd, mae fy swyddfa'n ceisio rhannu gwaith dysgu gyda Thyrsorlys Seland Newydd a'r **OECD** ar gyllidebau llesiant.

Ym Mawrth 2019, cyfarfu fy Nghyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd â swyddogion o **Senedd Ffrainc, Gweinidogaeth Amaethyddiaeth Ffrainc, ac o Weinidogaeth Trawsnewid Ecologol, a Les Futuribles** (melin draffod y dyfodol yn cynghori cyrff cyhoeddus a llywodraethau ar fethodoleg ac ymchwil y dyfodol) ym Mharis i draffod a dysgu o'u harferion mewn perthynas â'r dyfodol a thueddiadau'r dyfodol ac i rannu ein harfer o Gymru.



Effaith

Eleni mae fy nhîm a minnau wedi:

- ✓ **Ysbrydoli, dylanwadu a chodi ymwybyddiaeth** o'r Ddeddf ar draws ystod eang o bobl a sefydliadau, o staff rheng flaen i arweinyddion, cymunedau a phobl ifanc. Arddangos Cymru a deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol i gynulleidfaoedd rhwyngwladol ac ASau yn Senedd y DU.
- ✓ **Annog ymrwymadau cynhwysfawr** oddi wrth gyrff cyhoeddus ar symud y Newidiadau Syml yn eu blaen a pha gamau y byddent yn ymrwymo i'w gweithredu. Mae darparu 'taith' o

newidiadau syml at 'arwain y ffordd' wedi rhoi i gyrff cyhoeddus ac eraill fframwaith yn erbyn yr hwn y gallant fonitro cynnydd.

- ✓ **Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymadau** Adroddiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU i'r Cenhedloedd unedig ar ein cynnydd yn erbyn y Nodau Datblygu Cynaliadwy.
- ✓ **Dylanwadu ar y newid mewn ymddygiad ymarferol** mewn ystod eang o sefydliadau o fusnes, grwpiau gwirfoddol ac addysg, gan greu 'mudiad o newid' o amgylch y Ddeddf.



Pwrpas 4

Gweithredu'n ogystal â thrafod

Storïau o'n taith bersonol – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Ochr yn ochr â fy ngwaith gyda chyrrff cyhoeddus ac eraill i sbarduno cynnydd wrth gyflawni'r nodau llesiant, rwy'n benderfynol y bydd fy swyddfa hefyd yn arwain drwy esiampl. Mae fy nhîm yn ymgorffori'n gynyddol yr ymddygiadau yr ydym yn annog eraill i'w mabwysiadu yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

Er enghraifft, un o'n gwerthoedd craidd yw minimeiddio rheolau ac annog y rhyddid i fod yn arloesol. Rwy'n awyddus i ddarparu 'cyd-destun nid rheolaeth' ac rwy'n annog fy nhîm i wneud eu penderfyniadau eu hunain am sefyllfaoedd, gan roi iddynt y rhyddid i wneud penderfyniadau sy'n dangos fy mod yn ymddiried yn eu gallu. Gan gadw hyn mewn golwg, rydyn ni wedi bod yn datblygu polisiau cyflogi sy'n llywio'n harferion gwaith yn hytrach na chreu rheolau ar gyfer pob posibilrwydd. Mae'r polisiau hyn yn addas ar gyfer diwylliant mewn gweithle sy'n hybu a gwerthfawrogi gwaith sy'n cyfrannu at yr effaith strategol.



Rwy'n teimlo'n hyderus ein bod yn creu diwylliant sy'n canmol pobl sy'n gofyn am help. Mae fy swyddfa wedi symud i ffwrdd oddi wrth yr ymagwedd rheolwr llinell draddodiadol, tuag at drefniant mwy ystwyth a hyblyg, un sy'n caniatáu i bobl chwilio am gymorth oddi wrth y person mwyaf priodol. Rwyf wedi cysylltu hyn â chynllun mentora lle'r ydych yn dewis eich mentor eich hunan ac rwy'n annog gwrthdroi mentora wyneb i waered hefyd. Dyma lle mae aelodau iau nad ydynt yn uwch swyddogion yn uwch-fentora mewn sgil benodol, megis sgiliau digidol.



Gan gadw'r awyrgylch hwn mewn golwg, yn yr adran hon rwyf wedi cynnwys detholiad o storïau o'n taith bersonol fel tîm eleni. Eto rwyf wedi defnyddio'r pum dull o weithio ac wedi ceisio magsimeiddio'n cyfraniad i'r nodau llesiant. Er fy mod yn priodoli pob stori i nod penodol mae'n bwysig i gofio natur integredig yr egwyddor llesiant ac integreiddio, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu tuag at fwy nag un nod.



'Cymru Lewyrchus'

Gwnaethom gyfrannu at Gymru Lewyrchus:

“Mae cydweithredu heb amheuaeth yn helpu i gyflymu dealltwriaeth ddiwylliannol o gyrff cyhoeddus yr ydym yn dymuno eu cynorthwyo a'u herio, a fydd yn cynyddu effaith ein hymyriadau yn yr hirdymor”

- Drwy bartneriaeth gyda **Chanolfan Cydweithredol Cymru** fel rhan o'r cynllun Y Gallu i Greu i ddatblygu'r Daith tuag at 'Gymru Lewyrchus'
- Drwy gynorthwyo **Prentisiaid**
- **Drwy secondiadau** sy'n rhoi cyfle i bobl ddysgu sgiliau newydd – eleni rwyf wedi cynorthwyo 15 o secondiadau i mewn ac allan. Gellir gweld rhestr lawn o sefydliadau sy'n bartneriaid i ni yn 2018-19 yma.
- Drwy **wella cyflog staff â'r cyflogau isaf** – Talodd ein strategaeth wobrwyo ar gyfer 2017-2019 ar gyfartaledd gynnydd blynyddol uwch i staff sy'n ennill llai na £40k sy'n culhau'r bwlch rhwng y bandiau cyflog uchaf ac isaf ac sy'n helpu tegwch a chydaddoldeb cyflog.
- Drwy gynorthwyo busnesau lleol yn cynnwys **Eartha** a sefydlodd ein mur gwyrdd.



‘Cymru o Gymunedau Cydlynus’

Gwnaethom gyfrannu tuag at Gymru o Gymunedau Cydlynus:



- Drwy feincnodi ein proffil **amrywiaeth gweithlu** bob blwyddyn yn erbyn yr ystadegau cenedlaethol.

Darllenwch fwy

- Fel tîm bychan mae'n her i gynrychioli pob grŵp. Aethom i'r afael â hyn drwy ennyn ymgyfraniad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein rhaglen newydd Llwyfan y Bobl a fydd yn sicrhau ein bod yn **casglu persbectifau pobl o bob grŵp**. Bydd **Anabledd Cymru** a **Chyngor Mwslimiaid Cymru** a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol yn cynnal digwyddiadau i ni yn 2019-20 i gynorthwyo Llwyfan y Bobl.



- Drwy lwfans gwyliau newydd i staff, wedi ei ysbrydoli gan Fil Amddiffyn Dioddefwyr Trais yn y Cartref Seland Newydd, eleni gwneuthum wella'n polisi ar gyfer cynorthwyo pobl sy'n profi trais yn y cartref drwy gyflwyno 'y rhai sydd angen amser i ffwrdd i ffoi rhag perthynas gamdriniol ar frys ac amddiffyn eu hunain a'u plant'.

Dwedwch helo wrth Marie

Mae plant Marie wedi mynd heibio i oedran rhai sy'n mynychu cynlluniau chwarae a chlybiau gwyliau, ond nid ydynt yn ddigon hen i gael eu gadael gartref ar eu pennau eu hunain. Mae Marie'n defnyddio'r polisi 'gweithio unrhyw bryd mewn unrhyw le' fel y gall weithio gartref a bod yno i'w phlant. Plant hapus, mam gynhyrchiol.



- **Drwy bartneriaeth gydag United Welsh Housing** sefydliad sydd wedi bod yn bartner i mi yn y cynllun Y Gallu i Greu i ddatblygu'r daith tuag at Gymru o Gymunedau Cydlynus ac i gynorthwyo fy ngwaith ar dai.



- Drwy agor ein swyddfa i sefydliadau eraill sy'n ei defnyddio fel man cyfarfod neu i rannu desg.
- Drwy **bolisi gwirfoddoli staff** – mae staff wedi gwirfoddoli gyda **Chymorth i Fenywod** a gyda'r **Sgowntiaid**.
- Drwy gynorthwyo ein Helusen y Flwyddyn - **Big Moose**, menter gymdeithasol â chenhadaeth i 'adael y byd yn well lle nag yr oedd pan gyrhaeddoch chi'



- Drwy gynorthwyo mentrau megis **Beauty Bank** a chyfnewid dillad i godi arian i'n helusen a darparu nwyddau ymolchi i bobl sy'n ddigartref neu'n ffoi rhag camdriniaeth.

- Drwy ddarparu gofod ar ddesg ar gyfer **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru**.

Dwedwch helo wrth Julie

Mae Julie'n defnyddio ein polisi gwirfoddoli sy'n rhoi amser rhydd iddi weithio gyda Cymorth i Fenywod Cymru fel llysgennad. Yn ddiweddar mae dod yn eiriolydd ar gyfer eu rhaglen SEEDs (Survivors Empowering and Educating Services) gan fanteisio ar ei phrofiad personol o gamdriniaeth i ddylanwadu ar, a thrwytho ystod eang o randdeiliaid yn y ffordd orau o gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau i fenywod sy'n cael eu cam-drin, yn cynnwys camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol.



‘Cymru Iachach’

Gwneuthum gyfrannu at Gymru Iachach:

- Drwy bartneriaeth gyda **Chwaraeon Cymru**, sefydliad sydd wedi bod yn bartner i mi yn natblygiad y cynllun Y Gallu i Greu i ddatblygu taith tuag at Gymru Iachach.



- Drwy **Bolisi gweithio Unrhyw Bryd mewn Unrhyw Le** sy'n lleihau ein hangen i deithio heb angen, yn caniatáu i ni dreulio amser o ansawdd gyda'n teulu a'i lwyddiant yn hynod ddibynnol ar ymddiried yn eich gilydd.
- Drwy gofrestru yn Siarter Teithio Iach Caerdydd o dan arweiniad **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd** - gellir cael manylion yma.
- Drwy gyfarfodydd yn yr awyr agored.
- **Drwy glwb rhedeg a Yoga.**
- Drwy **gronfa llesiant staff** drwy yr hon y gall staff gyrchu £400 y flwyddyn i gynorthwyo eu llesiant.
- Drwy fy nhîm yn **casglu at ein gilydd fel grŵp llesiant** gan gynhyrchu syniadau ar y cyd ar gyfer mentrau llesiant ein swyddfa sydd yn parhau eleni, a byddwn yn rhoi eu syniadau ar waith ar gyfer Mur Llesiant a 'ZenDen' wedi ei ail-ddylunio gyda gwaith celf wedi ei ailgylchu a goleuadau tawel yn 2019-20.



Dwedwch helo wrth Clare

Mae Clare yn trefnu yoga a'r clwb rhedeg. Mae'n caru rhedeg ar hyd ffyrdd a llwybrau ac fel arfer mae'n ennill y categori dros 70oed mewn rasys o bob pellter. Mae'n beicio i'r gwaith bob dydd ac mae'n caru teithio ar ei beic yng Nghymru a thu hwnt.



‘Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu’

Gwnaethom gyfrannu tuag Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:

- Drwy bartneriaeth gyda **Chyngor Celfyddydau Cymru** sefydliad sydd wedi bod yn bartner i mi yn y cynllun Y Gallu i Greu i ddatblygu taith tuag at Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.



- Drwy fynychu **Gŵyl Lenyddol y Gelli** yn 2018 a rhedeg gweithgaredd gyda phobl ifanc oedd wedi ei ganoli ar **Gadair Eisteddfod yr Urdd**. Addurnodd pobl ifanc un o'r cadeiriau yn ein swyddfa gyda rhubanau oedd yn disgrifio eu huchelgeisiau, eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gadair hon yn eistedd yn ein swyddfa ac yn ein hatgoffa'n ddyddiol o genedlaethau'r dyfodol a phwrpas ein gwaith. Mae hefyd yn destun siarad i ymwelwyr sy'n dod i'n swyddfa.



- **Mae'r Gymraeg yn cael ei hannog a'i siarad** heb waharddiad yn fy swyddfa, mae traean o fy nhîm yn rhugl neu'n hyfedr yn y Gymraeg. Mae nifer o aelodau o fy nhîm yn mynychu dosbarth uwch wythnosol i wella eu Gymraeg ysgrifenedig, eu geirfa a'u hyder, ac eraill yn cael eu hariannu i ymgymryd â chyfleoedd dysgu personol.
- Mae gan fy nhîm ethos **lleibwyr diwylliant** ac mae'n rhannu adolygiadau a gwybodaeth yn rheolaidd am weithgareddau diwylliannol drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae diwylliant ac iaith yn cynnig sgiliau mwy meddal sydd eu hangen ar gyfer meddwl yn greadigol am y dyfodol.
- Rwyf wedi penodi Bardd Preswyl.

Bardd Preswyl

Rwyf wrth fy modd fy mod wedi penodi Rufus Mufasa fel fy Mardd Preswyl, mewn partneriaeth â **Llenyddiaeth Cymru**. Mae Rufus Mufasa yn berfformwraig barddoniaeth addawol dwyieithog sy'n cyfuno barddoniaeth a hip hop. Mae ei phenodiad yn rhan allweddol o'n mudiad ar gyfer achos a grëwyd gennym. Fel un o'r pedwar 'piler' datblygu cynaliadwy, mae diwylliant yn cynnig cyfle i gyfathrebu â chynulleidfa amrywiol mewn dull deinamig a phwerus, a chreu 'ystadegau cerddorol, troi polisïau'n gerddi, rapio'r rheolau ar gyfer dyfodol mwy disglair a dwyn ein cyd-uchelgais i drawsnewid ein bywydau er gwell a'u gwneud yn realiti'. I glywed cerdd gyntaf Rufus Mufasa gallwch wrando yma.



Dwedwch helo wrth Rebecca

Mae Rebecca'n Lleibiwr Diwylliant. Mae'n trefnu digwyddiadau diwylliannol ac wedu ennill Gwobr Awduron Ifanc y Cylchgrawn Planet 2018.



'Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang'

Gwnaethom gyfrannu at Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang:

- Drwy **partneriaeth** gyda **Masnach Deg Cymru/ Hub Cymru Africa** sefydliad sydd wedi bod yn bartner i mi yn y cynllun Y Gallu i Greu i ddatblygu'r Daith tuag at Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang.
- Drwy chwilo am **gadwyni cyflenwi moesegol** megis ein cyflenwad trydan.
- Drwy gael **siop onestrwydd Masnach Deg** yn y fy swyddfa.
- Drwy gefnogi lechyd Cyhoeddus Cymru gyda chaffael crysau T cotwm ar gyfer Cynhadledd Flynyddol ar Ddatgarboneiddio.
- Fe wnaeth fy nhim brynu Crysau T cotwm organig Masnach Deg a brand FGC mewn partneriaeth a **KoolSkools** sydd wedi bod yn darparu gweithdai i ysgolion yng Nghymru, yn cynnwys **Hafan Y Môr a Neyland** y dwy wedi newid i Wisgoed Ysgol Cotwm Masnach Deg.









“Mae gwneud penderfyniad da i brynu cynnyrch drwy gadwyn gyflenwi foesegol yn cyfrannu at fwy nag un o'r saith nod llesiant”

Dwedwch helo wrth Elen

Mae Elen ar secondiad o Fasnach Deg Cymru. Mae wedi sefydlu ein siop onestrwydd Masnach Deg ac wedi trefnu i ni gwrdd â chynhyrchwyr sy'n elwa o Fasnach Deg.



Y flwyddyn nesaf, byddaf yn casglu a chyhoeddi adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus ac unrhyw un sydd eisiau bod yn rhan o'r mudiad ar gyfer newid, wrth i mi ryddhau Adnoddau Y Gallu i Greu, adeiladu ar fy nghylch cyntaf o fonitro ac asesu, a chychwyn gweithio ar fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Disgwylid i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn a wnânt, gan symud o fabwysiadu newidiadau syml tuag at bolisiau a chynlluniau sy'n tyfu'n fwy a mwy uchelgeisiol a thrawsffurfiol.



Pwrpas 1:

Amlygu a gweithredu ar y materion mawr a'r heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Rwy'n cynllunio i ddefnyddio fy mhwerau yn y ddeddfwriaeth i ymgymryd â dau o Adolygiadau Adran 20 mewn meysydd lle rwyf yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â chynnydd - **caffael** ac **iechyd**. Rwy'n awyddus i weld y Ddeddf yn sbarduno penderfyniadau caffael a gwariant cyhoeddus gan gyfrannu at y nodau llesiant. Yn nheriau polisi ieched, rwy'n dymuno gweld newid yn yr ymagweddau hirdymor tuag at lesiant ar draws y GIG a Llywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiadau'n fy helpu i asesu i ba raddau mae hynny'n digwydd ac i wneud argymhellion, y bydd yn rhaid i gorff cyhoeddus gymryd pob cam posibl i'w ddilyn.

Bydd **cyllideb strategol** Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn flaenoriaeth. Byddaf yn monitro gweithrediad y Llywodraeth o fy argymhellion blaenorol ac yn rhoi cyngor a her lle nad yw'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso.

Parthed **tai** byddaf yn ffocysu ar ddylanwadu a gweithrediad Llywodraeth Cymru o argymhellion yr Adolygiad Tai Fforddiadwy.

Rhaid i Ddatgarboneiddio fod yn ganolog i'n holl weithrediadau yng Nghymru yn cynnwys gwaith fy nhim. Byddaf yn cyhoeddi cynllun deg pwynt i ddangos sut y dylem ariannu argyfwng hinsawdd ac arweiniad ychwanegol ar y nod 'Cymru Gydnherth' a 'Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang' gyda chmau y dylai cyrff cyhoeddus eu cymryd i wella bioamrywiaeth a chyfyngu ar eu hallyriadau carbon.

Byddaf yn cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol **ar ddylunio cynllunio** a rheoli datblygiad y gellid ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus, cymunedau a chynghorwyr statudol.

Mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, byddaf yn cyhoeddi adroddiad ar gyflwr y Genedl a 'Taith' ar **natur sgiliau sy'n dda ar gyfer y dyfodol**.

Byddaf yn parhau i gyfrannu i Ganolfan Cynorthwyo **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** i gynorthwyo newid sefydliadol, a byddaf yn ennill dealltwriaeth fwy manwl o gynnydd drwy fy monitro ac asesu fi fy hunan, a thrwy gynnal Labordai Byw ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

Pwrpas 2:

Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd Haf 2019 yn fy ngweld yn cwblhau fy nghylch cyntaf **o fonitro ac asesu** drwy ddarparu adborth unigol i'r 44 corff cyhoeddus a chyhoeddi adroddiad cyffredinol ag argymhellion sector wrth sector.

Byddaf yn parhau i gynyddu capasiti fy nhim ar **dueddiadau'r dyfodol** a fydd yn dod yn un o elfennau neilltuoel Labordai Byw ar fy lefel uchaf o gymorth i gyrff cyhoeddus.

Byddaf yn parhau i **ymateb i geisiadau** am gyngor a chymorth oddi wrth gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gydol y flwyddyn ynghyd â gwaith dilynol lle mae fy ymyrraeth wedi bod y mwyaf effeithiol.

Bydd fy mhartneriaeth gyda **Swyddfa Archwilio Cymru'n ac Academi Wales** parhau i fod yn elfen bwysig o ddarparu cymorth i gyrff cyhoeddus a chynyddu ein heffaith.

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yw un o fy nyletswyddau statudol fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi penderfynu cyhoeddi'r Adroddiad ym Mai 2020 yn fwrriadol fel ei fod wedi ei amseru i ymddangos cyn yr etholiadau cenedlaethol a lleol fel y gall ei gynnwys drwytho dadl gyhoeddus a manifestos gwleidyddol.

Rwy'n ei weld fel cyfle gwych i ddatblygu cyd-fanifesto ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a dyna fydd un o fy mlaenoriaethau ar gyfer 2019-20 gydag ymgyfraniad wrth ei wraidd o dan yr enw 'Cymru Ein Dyfodol'. Edrychwch ar ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr am y wybodaeth ddiweddaraf.

Pwrpas 3:

Creu mudiad ar gyfer newid

Roedd Y Gallu i Greu yn rhaglen waith o bwys sydd wedi arwain at newid moddol ar gyfer pob un o'r nodau llesiant. Bydd y 'Teithiau' hyn gyda'u holl arferion ac adnoddau da'n cael eu cyhoeddi yn ail o'r flwyddyn 2019 a bydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ddangos sut mae eu hymddygiad a'u gweithrediadau'n esblygu'n unol â'r Ddeddf.

Mae cyrhaeddiad Y Gallu i Greu wedi dangos sut mae sefydliadau nad ydynt yn dod o dan y ddeddfwriaeth yn croesawu ei gweledigaeth a'i hegwyddorion. Bydd Cyfnod 2 yn mapio amcanion llesiant cyrff cyhoeddus yn erbyn y Teithiau, i ddarparu dealltwriaeth o uchelgais a chynnydd a nodi camau i'w cymryd yng Nghymru a mannau eraill sydd yn wir yn 'Arwain y Ffordd'. Byddaf yn rhannu hyn ag ystod o sefydliadau i ddeall sut yr ydym yn helpu arfer da i 'deithio' a pha rwystrau sy'n atal hynny rhag digwydd.

Byddaf yn archwilio potensial ymagweddau partneriaeth traws-sector gyda **Busnesau yn y Gymuned a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** i harneisio'r cyd-ynni, a sbarduno'r sectorau preifat a'r trydydd sector i ymuno yn ein taith tuag at Gymru fwy cynaliadwy a chyfrifol yn fyd-eang.

Rwy'n teimlo'n gyffrous wrth feddwl fy mod yn mynd i lansio'r **Academi Arweinyddiaeth** ar gyfer pobl ifanc â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog iddi, a byddaf yn cynorthwyo arweinyddion ifanc i gymryd rhan mewn interniaethau, ôl-fentora a'r uwchgynhadledd Un Byd Ifanc ym mis Hydref 2019.

Darllenwch fwy

Pwrpas 4:

Gweithredu'n ogystal â thrafod

Mae fy nhim a minnau wedi ymrwymo i greu **diwylliant a fydd yn cael effaith cadarnhaol** arnom ni yn ogystal ag yng Nghymru a gweddill y byd. Bydd y Newidiadau Syml a gyhoeddais, a'r camau mwy uchelgeisiol a nodir yn "Nheithiau'r Gallu i Greu yn sylfaen i hyn.

Byddaf yn cyhoeddi Taith ar **gynadledda cynaliadwy**, mewn cydweithrediad ag Uned Digwyddiadau Pwysig Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyfle i ni ddangos y Ddeddf a sut y dylai pob sefydliad geisio gwneud egwyddor datblygu cynaliadwy rhan hanfodol o'u digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd llai.


Ac rwy'n edrych ymlaen at weld ein **Cynllun Gwirfoddoli'n** dod yn fyw, lle bydd gan aelodau fy nhim yr amser i gynorthwyo menter gymunedol sy'n cynyddu effaith un o'n nodau llesiant. Mae gennym gynlluniau cyffrous gyda'n helusen ddethol gyntaf, Big Moose, siop goffi ar ffurf menter gymdeithasol yng Nghaerdydd sy'n cynnig cyfleoedd gwaith i bobl ddigartref.

Ydych chi eisiau ymgyfrannu?

Rwyf eisiau clywed oddi wrth, a gweithio gyda grwpiau ac unigolion â gweledigaeth, menter, syniadau, pryderon neu rai sydd wedi cael profiad o unrhyw un o'r materion uchod. Cysylltwch drwy e-bost, trydar, llythyr, ffôn neu drwy Lwyfan y Bobl os yr ydych eisiau dod i wybod mwy, neu drwy gofrestru i dderbyn fy nghylchlythyr rheolaidd.

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
9 Gorffennaf 2019

Adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol



Adroddiad atebolrwydd

Yn yr adran hon, rwy'n adrodd ar ofynion atebolrwydd allweddol i Weinidogion Cymru ar ffurf debyg i adroddiad Cyfarwyddwyr sy'n cael ei baratoi gan gwmni preifat. Mae'r gofynion adrodd hyn wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Mae'n ofynnol i'm hadroddiad atebolrwydd gael tair adran: adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, Adroddiad Taliadau a Staffio a thystysgrif archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am adolygu fy adroddiad atebolrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â gwybodaeth arall yn fy natganiadau ariannol ac yn rhoi barn ar y datgeliadau canlynol yn yr adroddiad hwn:

- Rheoleidd-dra gwariant
- Datgeliadau ar atebolrwydd seneddol
- Datgeliadau tâl a phensiwn GTGAP ar fy nghyfer i ac aelodau fy uwch dîm rheoli
- Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr os yn berthnasol
- Taliadau colli swydd, os yn berthnasol
- Pecynnau gadael, os yn berthnasol
- Datgeliadau cyflog teg
- Dadansoddiad o niferoedd a chostau staff

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu a phwy sy'n gyfrifol am ac yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn fy Swyddfa wedi'i nodi ar fy ngwefan ac yn fy Natganiad Llywodraethu. Hefyd, mae'n ofynnol i mi ddatgelu unrhyw fuddiannau arwyddocaol sydd gennyf i a fy nghyfarwyddwyr a allai wrthdaro â'n cyfrifoldebau rheoli. Mae modd gweld cofrestr gryno o fuddiannau ar gyfer fy uwch dîm rheoli yma. Rheolwyd unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a gododd yn ystod y flwyddyn yn unol â'm polisi gwrthdaro buddiannau.

Fformat y Cyfrifon

Paratowyd fy natganiadau ariannol yn unol â Pharagraff 20 Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac unrhyw Gyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Daeth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fodolaeth ar 1 Chwefror 2016 gyda'm penodiad yn Gomisiynydd cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 ac yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro adnoddau fy swyddfa. Paratowyd y datganiadau ariannol sy'n dilyn yr adroddiad hwn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd yn yr FReM yn cymhwyso'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiedir neu fel y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Cyllido

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond mae'n cael ei hariannu ganddi. Yn 2018-2019, derbyniwyd £1.48 miliwn i ariannu gweithgareddau (£1.48 miliwn, 2017-18). Derbyniais hefyd swm bach o incwm arall o daliadau am geisiadau am gyngor, cefnogaeth a chymorth.

Canlyniadau ar gyfer y cyfnod

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant, am y flwyddyn, o £1.690 miliwn, sef cynnydd o 18% ar y cyfnod blaenorol (£1.433 miliwn hyd at 31.3.18). Gostyngodd balans y gronfa gyffredinol i £291.000 (£501,000 ar 31.3.18). Cedwir lefel rhesymol o arian wrth gefn ar gyfer ariannu cyfnod olaf fy rhaglen Y Gallu i Greu a fydd yn cael ei chwblhau yn 2019-20 a rhagofn i unrhyw faterion nas cynlluniwyd, materion brys a phwysig gael eu dwyn i sylw'r Comisiynydd. Mae'r fath gostau ychwanegol yn debygol o fod yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol.

Cwynion

Ni dderbyniodd fy swyddfa unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod.

Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled ag y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni ac mae fy nhîm wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yn ystod y cyfnod, ni thalwyd fy archwilwyr am unrhyw waith ac eithrio archwilio.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail yr hyn a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cronïadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- Cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth', a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol'.
- Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod ef neu hi yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn rhinwedd paragraff 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gadarnhau, cyn belled ag y gŵyr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, a bod y Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi eu cymryd i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
9 Gorffennaf 2019

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Pwrpas

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol a system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi cyflawni fy mholisïau, nodau ac amcanion, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dilyn Canllawiau Trysorlys EM. Mae'n nodi'r strwythurau llywodraethu ar gyfer fy swyddfa, a'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol a rheoli risg sydd wedi bod ar waith neu'n cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Mae'r systemau sydd ar waith ac a amlinellir yn y datganiad hwn wedi'u cynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach nag i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall y drefn felly roi sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Gan fod gwaith fy swyddfa'n torri tir newydd, deuthum i'r casgliad bod angen mabwysiadu "archwaeth" tuag at risg ar gyfer llawer o'm gwaith sy'n edrych tuag allan oherwydd na fyddai agwedd draddodiadol fwy minimalaidd neu ofalus, yn fy marn i, yn llwyddo i ddod â'r newid er gwell y sefydlwyd fy swyddfa i'w gyflawni. Esbonnir hyn ymhellach isod.

Natur fy swyddfa ac atebolrwydd

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel corfforaeth undyn. Mae hyn yn golygu mai deilydd y swydd sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau) ac nid oes 'bwrdd' traddodiadol sy'n gyfrifol yn gorfforaethol am berfformiad a llywodraethu'r sefydliad. Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2015, yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weithredoedd fy swyddfa, ac i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn benodol ar gyfer materion fel y trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

Panel cynghori

Sefydlodd Deddf 2015 banel i roi cyngor i mi ar weithredu fy swyddogaethau. Aelodau'r panel cynghori yw – (a) Comisiynydd Plant Cymru; (b) Comisiynydd Y Gymraeg; (c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; (d) yr aelod o staff Llywodraeth Cymru a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru fel Prif Swyddog Meddygol Cymru; (e) cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu aelod arall anweithredol o'r corff hwnnw a ddewiswyd gan y cadeirydd; (f) swyddog y corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru a elwir yn TUC Cymru wedi ei enwebu gan y corff hwnnw; (g) y cadeirydd, cyfarwyddwr neu swyddog tebyg y caiff Gweinidogion Cymru ei p/phenodi o gorff sy'n cynrychioli personau sy'n rhedeg busnes yng Nghymru; (h) person arall y gall y bydd Gweinidogion Cymru'n ei ph/benodi. Rwyf wedi manteisio ar brofiad aelodau unigol i drwytho rhaglen waith fy sefydliad a chynghori ar fy swyddogaethau statudol drwy gydol y flwyddyn.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rwyf wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i ddarparu cyngor adeiladol ac i herio ar faterion llywodraethu, rheolaeth ariannol ac archwilio, a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol - gan gynnwys adnabod a rheoli risg. Aelodau'r Pwyllgor yw:

- **Alan Morris**, Archwilydd wedi ymddeol sy'n frwd ei gefnogaeth i ddatblygu cynaliadwy yw cadeirydd y Pwyllgor;
- **Jocelyn Davies**, cyn AC Plaid Cymru a chyn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a chadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad, aelod o Banel Ymgynghorol Comisiynydd Plant Cymru ac Ymddiriedolwr Gofal a Thrwsio Cymru, Ymddiriedolwr Undeb Credyd Plaid Cymru, Aelod o Weithlu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru, aelod bwrdd anweithredol awdurdod Refeniw Cymru, aelod o Bwyllgor Gwaith Plaid Cymru, aelod o Banel Aelodaeth, Safonau a Disgyblaeth Plaid Cymru, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Chydymffurfiaeth Plaid Cymru, llysgennad Cymorth i Fenywod Cymru;

■ **John Dwight**, Archwilydd wedi ymddeol, ymddiriedolwr a thrysorydd anrhydeddus Gofal Hosbis y Ddinas ac aelod o bwyllgor gweithredol cangen CIPFA-Cymru;

■ **Gareth Madge**, cyn Brif Swyddog a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol gyda Heddlu De Cymru, is-gadeirydd Bwrdd Treftadaeth Heddlu De Cymru, Ymddiriedolwr Capel Bedyddwyr Calfaria, a

■ **Jonathan Morgan**, cyn AC Ceidwadol a chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad; Ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol yr Eglwys Newydd, unig berchennog a chyfarwyddwr Insight Wales Consulting Ltd, yn cael ei gyflogi gan Practice Solutions Ltd i reoli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Uned Busnes Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae pob un ohonynt yn annibynnol ac nid ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi rhoi adroddiad blynyddol i mi lle daw i'r casgliad 'y gall y Pwyllgor, fel canlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn a chanfyddiadau'r archwiliad mewnol ac allanol, roi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr bod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a sicrwydd risg sydd ar waith yn briodol ac wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2018-2019.



Fframwaith Llywodraethu

Mae fy strwythur llywodraethu corfforaethol wedi esblygu yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'n harferion gwaith wrth i ni barhau i sefydlu'r pum dull o weithio a argymhellwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein trefniadau gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r elfennau craidd yn dal yr un fath, fodd bynnag crëwyd rhai strwythurau a rolau ychwanegol.

Rwy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn dilyn trafodaeth gydag aelodau fy nhîm. Rwyf hefyd wedi rhoi'r awdurdod i rai aelodau o'r staff i awdurdodi trafodion ariannol. Mae Archwilio Mewnol wedi bodoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cyflawni rhaglen waith lawn ac mae'r Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd wedi bod yn gwbl weithredol.

Mae fy nghynllun strategol yn nodi'r hyn y gobeithiaf ei gyflawni drwy newidiadau a fydd yn fanteisiol i bobl Cymru a sut rwy'n bwriadu mynd ati i wneud hyn drwy weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'n ddogfen uchelgeisiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus herio'r modd y maent yn gweithio ac addasu arferion hirsefydlog i wireddu'r hyn a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru pan benderfynodd gyflwyno'r hyn sydd erbyn heddiw'n Ddeddf 2015. Mae'r cynllun yn ddeinamig ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn a'i addasu yn ôl y galw mewn ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol drwy gydol fy nghyfnod yn fy Swydd.

Ymagwedd tuag at reoli risg

Mae fy ymagwedd tuag at reoli risg yn gyson â'm cynllun strategol ac mae'n unol â Deddf 2015 a'r hyn y bwriedir ei gyflawni trwyddi. Mae fy mholisi rheoli risg, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ei gwneud hi'n glir fy mod am greu a chynnal amgylchedd a fydd yn caniatáu i reoli risg yn effeithiol ffynnu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn derbyn gwybodaeth lawn am ein cynlluniau a'r ymagwedd a fabwysiedir gennyf i a pherchnogion y risgiau i reoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r polisi'n ei gwneud hi'n glir nad wyf yn gwrthwynebu cymryd risgiau. I'r gwrthwyneb, er mwyn cyflawni'r amcanion yn fy nghynllun strategol a'r hyn a ddisgwylir, bydd angen ymagwedd agored neu archwaeth tuag at risg nad yw'n norm i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Rwyf wedi

dod i'r casgliad mai mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer fy ngwaith sy'n edrych tuag allan gyda chyrrff cyhoeddus eraill yw'r unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fe allai peidio â gwneud hynny olygu y byddwn yn methu â manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn codi a byddai risg uchel o fethu â chyflawni'r amcanion heriol yr wyf wedi'u gosod yn y cynllun strategol a'r hyn y mae fy rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl gennyf. Yn yr un modd, rwyf wedi penderfynu bod angen i'm sefydliad weithredu geiriau'r Ddeddf a bod yn agored ac arloesol a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, ni fydd risgiau o'r fath yn cael eu cymryd yn fyrbwyll; byddant yn cael eu rheoli'n briodol ac yn ofalus gyda'r nod o gyflawni cymaint â phosibl yn llwyddiannus.

Rwyf wedi cymryd ymagwedd fwy traddodiadol a gofalus tuag at fy mhrosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth.

Yn ystod 2018-2019 rwyf wedi diweddarau fy nghofrestr risg strategol mewn ymgynghoriad â staff a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nodwyd risgiau priodol yn y gofrestr risgiau strategol mewn perthynas â'm dyletswyddau statudol a'r rôl y bydd fy sefydliad yn ei chwarae wrth helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni amcanion y Ddeddf. Mae camau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn fy nhrefniadau gwaith.

Archwiliad Mewnol

Mae gwaith archwilio mewnol yn un modd allweddol o ddarparu'r sicrwydd sydd arnaf ei angen fel Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf wedi penodi Deloitte i weithredu fel archwilydd mewnol i mi ac maent wedi llunio'r adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg
- Systemau Ariannol
- Adolygiad Lefel Uchel o Seiberddiogelwch
- Diogelu Data

Mae Adroddiad Blynyddol Deloitte ar gyfer 2018-2019 yn cadarnhau y gallwn “Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethom yn ystod y flwyddyn, ddod i'r casgliad bod gan y Comisiynydd system reolaeth fewnol gadarn, a ddylai ddarparu sicrwydd cymedrol ynghylch cyflawni amcanion y Comisiynydd”.

Sicrwydd gwybodaeth

Mae fframwaith llywodraethu gwybodaeth wedi'i sefydlu gyda chyfes o bolisiau sylfaenol sy'n nodi trefniadau diogelwch ac egwyddorion llywodraethu gwybodaeth dda, ynghyd â'r cyfrifoldebau a'r ymddygiadau yr wyf yn eu disgwyl gan bawb sy'n gweithio i mi.

Ni fu unrhyw doriad ar ddiogelwch data yn ystod y flwyddyn. Ni roddwyd adroddiad ffurfiol ar unrhyw ddigwyddiadau'n gysylltiedig â data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod.

Crynodeb o effeithiolrwydd

O'r sicrwydd a ddarperir gan fy nhîm, fy ngwybodaeth o waith fy swyddfa, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan archwiliad mewnol ac allanol, gallaf adrodd nad oedd unrhyw wendidau arwyddocaol yn y system reolaeth fewnol fu ar waith yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Ar gyfer 2019-20 byddaf yn monitro, yn cynnal a gwella llywodraethu a threfniadau rheolaeth fewnol i sicrhau eu bod yn parhau i gwrdd â'm hanghenion sicrwydd ac yn addas ar gyfer gweithle modern, hyblyg.

Lle bo angen, byddaf yn parhau i ddiweddarau fy strwythur staffio i sicrhau bod y trefniadau staffio mwyaf effeithlon ac effeithiol gennyf er mwyn cyflawni'r ystod eang o swyddogaethau.

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
9 Gorffennaf 2019

Adroddiad taliadau a staff

Mae'r rhan hon o'm hadroddiad atebolrwydd yn darparu gwybodaeth am fy mholisi tâl i mi a'm Cyfarwyddwyr.

Cymerais gyngor ynghylch tâl gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil ar gyfer fy nghyfarwyddwyr.

Mae'r adrannau canlynol, sydd wedi cael eu harchwilio, yn rhoi manylion am daliadau a buddion pensiwn y swyddogion uchaf yn fy swyddfa:

Fe'm penodwyd i ar 1 Chwefror 2016 a phenodwyd fy Nghyfarwyddwyr rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016. Gweinidogion Cymru sy'n pennu tâl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 5 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nifer a dadansoddiad o gostau staff uwch fesul band (archwiliwyd)

	Cyflog £000		Buddion mewn Nwyddau a Gwasanaethau (i'r £100 agosaf)		Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf)		Cyfanswm £000	
	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18
Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016. Llawn amser	90-95	90-95	2	-	36	36	125-130	125-130
Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu. Llawn amser	60-65	55-60	-	-	24	23	80-85	75-80
Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi, o 12 Medi 2016. Rhan-amser 0.8 CALI	45-50 (CALI 60-65)	45-50 (CALI 55-60)	1	-	20	19	65-70	60-65
Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, o 6 Mehefin 2016. Rhan-amser 0.6 CALI	35-40 (CALI 60-65)	40-45 (CALI 55-60)	-	-	16	17	50-55	55-60
Mike Palmer – Cyfarwyddwr Perfformiad Polisi. Llawn Amser. Gweithredu, Ymddeolodd ar 31 Hydref 2017	-	40-45 (CALI 65-70)	-	-	-	6	-	45-50

Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau

Mae'r rhain yn ymwneud â thaliadau a wnaed o dan ein Polisi Rhoddion Llesiant. Mae Llesiant yn hynod o bwysig i ni fel sefydliad ac mae'n thema ganolog y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

a'i saith nod. Mae llesiant hefyd yn beth personol iawn. Fel rhan o'n Strategaeth Wobrwyo 2017-19, cafodd cyflogau pobl oedd yn ennill dros £40,000 y flwyddyn eu brigdorri a'u talu i mewn i Bot Llesiant. Gall gweithwyr hawlio hyd at £400 tuag at gostau ymaelodi mewn clwb, gweithgaredd, triniaeth iechyd neu offer i gynorthwyo'r gweithgaredd.

Budd-daliadau Pensiwn - Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (archwiliwyd)

	Cyfanswm pensiwn cronedig	Cynnydd Real mewn Pensiwn	GTGAP 31.3.19	GTGAP 31.3.18	Cynnydd real/ (gostyngiad) yn GTAGP
	£000	£000	£000	£000	£000
Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016	5-10	0-2.5	65	38	13
Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu, o 19 Gorffennaf 2016	0-5	0-2.5	42	23	11
Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi, o 12 Medi 2016.	0-5	0-2.5	29	15	9
Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu, o 6 Mehefin 2016.	0-5	0-2.5	32	19	9
Mike Palmer – Cyfarwyddwr Perfformiad Polisi a Gweithredu, Llawn amser – ymddeolodd ar 31 Hydref 2017	-	-	-	715	-

Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "Alpha" - yn gynlluniau aml-gyflogwr heb eu hariannu sydd â buddiannau wedi'u diffinio ond nid yw ein swyddfa yn gallu canfod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Cafodd y PCSPS ei brisio gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2018-2019, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £159,491 yn daladwy i'r PCSPS (2017-18 £137,732) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr fel arfer bob pedair blynedd wedi i'r cynllun gael ei brisio'n llawn. Gosodir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost y buddion sy'n cronni yn ystod 2018-2019 ar gyfer eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwnnw i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn **partneriaeth**, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan gyflogydd. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £878.43 i un neu fwy o'r panel o dri o ddarparwyddion pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogydd yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.74%

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr y £53.39, 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad salwch y gweithwyr hynny.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £931.82. Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn ddim.

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r

dyddiad hwnnw, mae pob gwas sifil a benodir o'r newydd a mwyafrif y rheiny sydd yn y gwasanaeth eisoes wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau clasurol, premiwm, **clasurol a mwy, nuvos ac alpha** yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012, yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alpha wedi cael 'bancio' buddion PCSPS, ac i'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS, bydd y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn 'prynu arian' rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogydd (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha**. Mae'r buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premiwm**, bydd buddion yn cronni ar raddfa o 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **cynllun clasurol**, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn y bôn, mae

clasurol a mwy yn gynllun cymysg gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn ôl y **cynllun clasurol** a buddion ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002, wedi'u cyfrifo yn unol â'r **cynllun premiwm**. Yn **nuvos** mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn **alpha'n** codi mewn ffordd debyg i nuvos, ond bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio'u pensiwn (cymudo) a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) tuag at gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogydd yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at derbyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogydd). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth wedi iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os byddant eisoes wedi cyrraedd neu fynd heibio i'r oedran pensiwn. Mae oedran pensiwn yn 60 ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm a chlasurol a mwy**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** - fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond nodwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

(i) Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actiwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw GTGAP neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan. Cyfrifir GTGAP yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008 ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir taliadau pensiwn.

(ii) Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP a ariennir gan y cyflogydd. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

Adrodd ar Gynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill - Pecynnau Gadael (archwiliwyd)

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw iawndal i unrhyw aelod o staff (dim yn 2017-18).

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael erall yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn yn ystod blwyddyn yr ymadawiad. Pan fydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, yr adran fydd yn talu'r costau ychwanegol yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeoliadau ar sail afiechyd gan y cynllun pensiwn.

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr (archwiliwyd)

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-gyfarwyddwyr (dim yn 2017-18).

Datgeliadau cyflog teg (archwiliwyd)

	2018-19	2017-18
Band tâl yr unigolyn sy'n derbyn y tâl uchaf	90-95	90-95
Cyfanswm canolrif (£)	32,311	34,975
Cymhareb	1:2.86	1:2.65
Ystod tâl staff: uchaf (£)	60,750	69,125
Ystod tâl staff: isaf (£)	16,120	16,120

Mae'n ofynnol i mi ddatgelu'r berthynas rhwng tâl yr unigolyn sy'n derbyn y tâl uchaf a thâl canolrifol y gweithlu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogydd a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau. Mae newid bach yn y pwynt canolrifol a'r gymhareb yn 2018-19 yn adlewyrchu mân newidiadau staff yn fy sefydliad.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau (heb fod yn destun archwiliad)

Mae dadansoddiad cyflog yn ôl rhyw yn fesur pwysig wrth i ni symud tuag at Gymru fwy Cyfartal. Ar gyfer 2018-2019, rwyf felly'n dewis adrodd eto ar sefyllfa cyflogau yn ôl rhyw ar gyfer pobl sy'n gweithio yn fy nhîm. Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos canolrif a chymedr graddfeydd tâl fesul awr ar gyfer y rhai yn fy nhîm y mae gennyf reolaeth uniongyrchol dros eu cyfraddau tâl. Mae'r ail dabl yn dangos canolrif a chymedr graddfeydd tâl fesul awr pan gynhwysir aelodau'r tîm o sefydliadau partner.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: cyflogir yn uniongyrchol yn unig	2018-2019		2017-2018	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
Cyfanswm canolrif (£)	16.79	16.79	16.29	16.10
Cyfanswm cymedrig (£)	18.79	15.99	17.19	16.10

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: Cynhwysir rhai cyflogedig ar secondiad	2018-2019		2017-2018	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
Cyfanswm canolrif (£)	18.07	16.79	18.07	16.10
Cyfanswm cymedrig (£)	19.07	15.89	18.32	15.91

Adroddiad Staff

Niferoedd staff a Chostau
cysylltiedig (archwiliwyd)

Ar 31 Mawrth 2019 roedd 35 aelod o staff gan y Comisiynydd (27.78 cyfwerth ag amser llawn) gan gynnwys y Comisiynydd. Ar 31 Mawrth 2018 y ffigurau cymharol oedd 32 o bobl (25.06 cyfwerth ag amser llawn).

Costau Staff (archwiliwyd)
Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

	2018-19	2017-18
	£000	£000
Cyflogau	778	641
Costau nawdd cymdeithasol	81	68
Costau pensiwn	160	136
Is-gyfanswm	1,019	845
Secondiadau i mewn a staff asiantaeth	273	225
Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allan	-	-
Cyfanswm Costau Net	1,292	1,070

Roedd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd am y cyfnod (gan gynnwys cyfarwyddwyr) fel a ganlyn: (heb fod yn destun archwiliad)

	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18
	CALI	CALI
Cyflogedig yn Uniongyrchol	19.20	15.57
Rhai Cyflogedig ar Secondiad	7.10	3.88
Cyfanswm	26.30	19.45

Roedd nifer y rhai ar secondiad cyfwerth ag amser llawn a dalwyd a nas talwyd fel a ganlyn: (heb fod yn destun archwiliad)

	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18
	CALI	CALI
Rhai cyflogedig ar Secondiad	7.10	3.88
Rhai ar Secondiad heb dâl	0.66	1.04
Cyfanswm	7.76	4.92

Mae'r tabl canlynol yn dangos y nifer o rai ar secondiad cyfwerth ag amser llawn o'r pymtheg sefydliad yr ydym wedi ffurfio partneriaeth gyda nhw o fewn y cyfnod:

Sefydliad	Maes gwaith	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18
		WTE	WTE
Chwaraeon Cymru	Polisi	1.00	0.17
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG	Polisi	1.00	0.08
Cyngor Celfyddydau Cymru	Polisi	1.00	0.01
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	Polisi	0.60	0.10
Interlink	Polisi	0.60	0.03
Cymdeithas Tai Unedig Cymru	Polisi	0.57	0.10
Masnach Deg Cymru	Polisi	0.50	1.00
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru	Polisi	0.50	0.10
Canolfan Cydweithredol Cymru	Polisi	0.50	0.09
Comisiynydd Plant Cymru	Cymorth Busnes a Pholisi	0.40	0.65
Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru	Polisi	0.33	0.00
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Polisi	0.30	0.83
BT	Rheoli Prosiect	0.21	0.08
Academi Wales	Polisi	0.15	0.00
Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru	Polisi	0.10	0
Llywodraeth Cymru	Cymorth Busnes a Pholisi	0.00	0.75
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Polisi	0.00	0.75
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddau	Polisi	0.00	0.18
Cyfanswm	Polisi	7.76	4.92

Taliadau i Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio a Sicrwydd Risg
(heb fod yn destun archwiliad)

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd yn cynnwys pum aelod annibynnol, a benodir gan y Comisiynydd. Mae aelodau'n derbyn lwfans dyddiol o £250 ac mae'r Cadeirydd yn derbyn lwfans dyddiol o £300. Yn 2018-19 gwnaed y taliadau canlynol:

	1.4.18 to 31.3.19	1.4.17 to 31.3.18
	(£)	(£)
Alan Morris (Cadeirydd)	1,800	2,400
John Dwight	1,250	1,500
Gareth Madge	1,000	1,375
Jocelyn Davies	1,000	2,000
Jonathan Morgan	750	1,250
Cyfanswm	5,800	8,525

Cyfansoddiad staff

Rydym yn casglu ystadegau'r gweithlu mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw pob un o'r rhain yn cael eu cyhoeddi oherwydd maint bach ein gweithlu ac anhawster yn sgil hynny i gynnal ein rhwymedigaethau i ddiogelu anhysbysrwydd data sensitif.

Ystadegau rhyw a thâl y gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Dengys y tabl hwn ffurfweddiad ein gweithlu cyfan yn ôl rhyw, band tâl, math o gontract a phatrwm gwaith ar 31 Mawrth 2019: (mae dros dro'n cynnwys staff a gyflogir ar gontractau tymor penodol a rhai ar secondiad o sefydliadau partner).

Band tâl/ trefniant	LI/A gwryw parh	LL/A gwryw dros dro	Rh/A gwryw parh	Rh/A gwryw dros dro	LI/A benyw parh	LI/A benyw dros dro	Rh/A benyw parh	Rh/A benyw dros dro	Cyfansymiau
Gradd 1 £19 - 22k yf				1	1	2	1		5
Gradd 2 £23 - 27k yf					3				3
Gradd 3 £30 - 35k yf	2				2				4
Gradd 4 £38 - 43k yf	1				2	1	1	1	6
Gradd 5 £49 - 53k yf					1	1	1		3
Gradd 6 £58 - £62 yf					1		2		3
CCDC £90 -95k yf						1			1
Gweithwyr partneriaeth				2		2		6	10
Cyfanswm	3	0	0	3	10	7	5	7	35

Ystadegau rhyw y gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Mae'r tabl hwn yn dangos 35 o weithwyr ar 31 Mawrth 2019 yn ôl rhyw, ynghyd â chymhariaeth yn erbyn y blynyddoedd blaenorol a dyddiad Poblogaeth y Cyfrifiad 2011: Cymru (3,063,456)

RHYW	CCDC 31/03/2019		CCDC 31/3/2018	2018	CYMRU 2014	
	Total No.	%	Total No.	%	No.	%
Gwryw	6	17.1	4	12.5	1,504,228	49
Benyw	29	82.9	28	87.5	1,559,228	51

Ystadegau oed y gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65 & Over	Undisclosed
4	8	6	9	0	1	7

Cyfrif yn ôl Oed ar 31 Mawrth 2018

Ystadegau ymadawyr â'r gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Bu 7 o ymadawyr yn ystod y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019

- Daeth 3 secondiad/partneriaeth i ben
- Daeth 2 gontract tymor penodol i ben
- Ymddiswyddodd 2 o bobl i ymgymryd â chyflogaeth arall

Ystadegau hyfforddiant a datblygu'r gweithlu

(heb fod yn destun archwiliad)

Cyfrif pennau yn ôl rhyw, band tâl, math o contract a phatrwm gwaith aelodau'r tîm a fanteisiodd ar gyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd yn allanol yn ystod y flwyddyn. Sylwch fod y diffiniad 'dros dro' yn cynnwys staff a gyflogir ar gontractau tymor penodol, neu rai sy'n gweithio ar secondiad o sefydliadau partner.

Band tâl/ trefniant	LI/A gwryw parh	LL/A gwryw dros dro	Rh/A gwryw parh	Rh/A gwryw dros dro	LI/A benyw parh	LI/A benyw dros dro	Rh/A benyw parh	Rh/A benyw dros dro	Cyfansymiau
Gradd 1 £19 - 22k pa							1		1
Gradd 2 £24 - 28k pa					1				1
Gradd 3 £31 - 35k pa	1								1
Gradd 4 £39 - 43k pa							1	1	2
Gradd 5 £47 - 51k pa					1			1	2
Gradd 6 £58 - £62 pa					1		2		3
Comisiynydd £91k						1			1
Ar secondiad heb dâl									
Cyfanswm	1				3	2	1	2	9

Cynorthwywyd un ar ddeg o bobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi allanol fel aelodau unigol o'r tîm. Cynorthwywyd aelodau tîm ar draws y mwyafrif o raddfeydd, rhyw a phatrwm gwaith i gymryd rhan, fel y dangosir uchod.

Hefyd, gwnaethom gynnal nifer o ddiwrnodau Datblygu Tîm i'r Tîm cyfan.

- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl – cwrs achrededig 2 ddiwrnod (Training in MIND)
- Diwrnod Tîm gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub
- Diwrnod Tîm yn ymweld â mannau addoli
- Diwrnod Tîm ar gynllunio strategol
- Diwrnod rheoli tîm i adolygu blaenoriaethau gwaith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

Data absenoldeb salwch

(heb fod yn destun archwiliad)

Caiff ffigyrau absenoldeb salwch eu casglu, eu monitro a'u cofnodi ar gyfer aelodau'r tîm sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 adroddwyd mai'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch oedd 1.68% o'r oriau oedd ar gael (0.4 y cant 2017-18). Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 82 ddiwrnod o absenoldeb salwch tymor byr ar gyfer 9 aelod o'r tîm. Nid oedd unrhyw achosion o absenoldeb hirdymor yn y flwyddyn ariannol hon (absenoldeb yn parhau am fwy na 4 wythnos).

Gwariant ar ymgynghoriaeth

(heb fod yn destun archwiliad)

Costau ymgynghoriaeth o £5,268 i drwytho datblygiad ein Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a chynllun parhad busnes (7,025, 2017-18).

Taliadau oddi ar y gyflogres

(heb fod yn destun archwiliad)

Ni fu unrhyw daliadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 (dim yn 2017-18).

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
9 Gorffennaf 2019

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Paragraff 21 o Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 31 Mawrth 2019 a'i gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y

Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol i mi adrodd i chi yn eu cylch yn unol â'r ISAs (UK) os:

- nad yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi datgelu unrhyw ansicrwydd perthnasol a all fwrw amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol am gyfnod o leiaf ddeuddeng mis o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar y rheiny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynglŷn â'u sicrwydd.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall i nodi anghysondebau perthnasol â'r

datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion sydd wedi eu cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio, yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o ran taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y ddeddf honno, am fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y rheolaeth fewnol sydd ei hangen yn ôl barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnesau gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
ar 31 Mawrth 2019

			2019		2018
	Nodyn		£000		£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol:					
Eiddo, offer a chyfarpar	4		10		15
Asedau cyfredol:					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	5	27		2	
Arian parod ac arian cywerth	6	421		601	
			448		603
Cyfanswm asedau			458		618
Rhwymedigaethau cyfredol:					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	7		(162)		(112)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			296		506
Rhwymedigaethau hirdymor:					
Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau			(5)		(5)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau			291		501
Ecwiti'r trethdalwyr:					
Cronfa gyffredinol			291		501

Sophie Howe,
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a
Swyddog Cyfrifyddu
9 Gorffennaf 2019

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107-114
yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Llifoedd Arian am y cyfnod 1 Ebrill 2018
hyd at 31 Mawrth 2019

		1.4.18 i 31.3.19	1.4.17 i 31.3.18
	Note	£000	£000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net		(1,690)	(1,433)
Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian	3.2	14	11
(Cynnydd)/ gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	5	(25)	21
Cynnydd/(gostyngiad) mewn taliadau masnach	7	50	(75)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau		-	5
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol		(1,651)	(1,471)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	4	(9)	(15)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(9)	(15)
All-lif arian net		(1,660)	(1,486)
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido		-	-
Cyllido Net		1,480	1,480
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian cywerth	6	(180)	(6)
Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod		601	607
Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod.		421	601

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107-114
yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019

		1.4.18 i 31.3.19	1.4.17 i 31.3.18
	Nodyn	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2018		501	454
Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr 2018-2019			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		1,480	1,480
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(1,690)	(1,433)
Balans ar 31 Mawrth 2019		291	501

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107-114 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Paratowyd y datganiadau ariannol am y cyfnod deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r polisiau cyfrifyddu sydd yn yr FReM yn cymhwyso'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiedir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn adlewyrchu dwy safon newydd a gyflwynwyd ac sy'n effeithiol ar gyfer y cyfnod adrodd hwn: Offer Ariannol IFRS 9; Refeniw IFRS 15 o gontractau gyda chwsmeriaid. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol y Comisiynydd er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyriwyd yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mae fy nhîm wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt eto'n effeithiol ac nad ydynt wedi eu mabwysiadu yn gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) IFRS16 Prydles, mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'n rhesymol amcangyfrif effaith IFRS16, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IASB) ond nad yw wedi'i fabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd ac a fydd yn gymwys o 2020-2021, ar hyn o bryd.

Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd ar gyfer fy swyddfa isod.

1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol oherwydd, yn fy marn i, mae effaith ailbrisio asedau sefydlog ar eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu costau presennol yn amherthnasol.

1.2 Cyllid

Y brif ffynhonnell arian ar gyfer fy swyddfa yw Llywodraeth Cymru trwy grant flynyddol, a gredydir i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cesglir arian hefyd o ffioedd am gefnogaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gennyf i a fy nhîm o dan swyddogaethau'r Comisiynydd Adran 19a) d) o'r Ddeddf.

1.3 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae'r holl asedau nad ydynt yn gyfredol wedi'u prisiau ar gost hanesyddol (gweler 1.1 uchod). Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £1,000. Mae niferoedd mawr o'r un math o ased wedi'u grwpio gyda'i gilydd wrth benderfynu a oeddent yn disgyn uwchben neu islaw'r trothwy.

1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn gyfredol trwy randaliadau cyfartal dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig, fel a ganlyn:

- Offer TGCh 3 blynedd
- Dodrefn 3 blynedd

Codir dibrisiant blwyddyn lawn yn ystod blwyddyn y caffaeliad.

1.5 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredol yw'r trafodion hynny sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu fy swyddfa. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn. Caiff pob gwariant ei ddosbarthu fel gwariant gweinyddol.



1.6 Treth ar Werth

Nid yw fy swyddfa wedi ei chofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phryniannau asedau sefydlog gyda TAW yn gynwysedig, gan na ellir adennill TAW.

1.7 Pensiynau

Mae fy staff yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Mae cost elfen budd diffiniedig y cynllun yn cael ei chydabod yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n dwyn budd o wasanaethau gweithwyr trwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifir ar sail gronnu. Mae atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynllun, mae fy swyddfa yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y'u telir.

1.8 Prydlesi

Mae prydlesi asedau lle mae holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased ar brydles yn syrthio ar fy swyddfa yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Caiff yr ased ei chofnodi fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr sy'n cyfateb i isafswm y taliadau prydles. Codir taliadau i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a chodir tâl cyllid yn seiliedig ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles.

Codir rhenti prydlesi gweithredol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

1.9 Adroddiadau segmentol

Mae fy swyddfa yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau y mae'r canlyniadau gweithredu yn cael eu hadrodd ynddynt.

1.10 Treuliau staff

Mae fy swyddfa yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig megis gwyliau blynyddol nas cymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â IAS19.

1.11 Darpariaethau

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol y mae eu hamseriad neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth.

1.12 Arian parod ac arian cywerth

Mae fy swyddfa'n cadw arian a gaiff ei adneuo mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl ei dderbyn. Nid yw fy swyddfa yn cadw unrhyw arian mân.

2. Costau staff

Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

	01.4.2018 i 31.3.2019	01.4.2017 i 31.3.2018
	£000	£000
Cyflogau	778	641
Costau nawdd cymdeithasol	81	68
Costau pensiwn	160	136
Is-gyfanswm	1,019	845
Secondiadau i mewn a staff asiantaeth	273	225
Cyfanswm costau	1,292	1,070

3. Costau gweinyddol eraill

	1.4.18 i 31.3.19		1.4.2017 i 31.3.2018	
	£000	£000	£000	£000
3.1 Costau gweinyddu:				
Adeiladau	43		45	
Swyddfeydd	134		102	
Hyfforddiant a recriwtio	23		6	
Teithio a Chynhaliaeth	28		30	
Tal yr archwilydd allanol	16		16	
Tal yr archwilydd mewnol	12		12	
Offer TGCh	43		34	
Gweithdy prosiect	113		102	
		412		347
3.2 Eitemau nad ydynt yn arian:				
Tâl dibrisiant ar asedau cyffredin	14		11	
Colled wrth waredu asedau sefydlog	-		-	
Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau	-		5	
		14		16
		426		363

4. Eiddo, offer a chyfarpar

	Offer TGCh	Dodrefn ac Offer Swyddfa	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost			
Ar 1 Ebrill 2018	30	2	32
Ychwanegiadau	9	-	9
Gwerthiannau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2019	39	2	41
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2018	16	1	17
Cost am flwyddyn	13	1	14
Gwerthiannau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2019	29	2	31
Gwerth net yn y llyfrau ar 1 Ebrill 2018	14	1	15
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2019	10	-	10

5. Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

	31.03.19	31.03.18
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Masnach a derbyniadau eraill	10	-
Rhagdaliadau a chroniadau incwm	4	2
Ased contract	13	-
	27	2

Mae gwybodaeth ar yr ased contract yn Nodyn 8

6. Arian parod ac arian cywerth

	31.03.19	31.03.18
	£000	£000
Balans ar Ebrill 1 2018	601	607
Newid net mewn balansau arian parod ac arian cywerth	(180)	(6)
Balans ar 31 Mawrth 2019	421	601
Roedd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2019 yn cael eu cadw mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.		

7. Taliadau masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31.03.19	31.03.18
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Taliadau masnach	83	36
Croniadau	76	76
Atebolrwydd contract	3	-
	162	112

Mae gwybodaeth ar yr atebolrwydd contract yn Nodyn 8

8. Incwm arall, asedau contract a rhwymedigaethau

Cynhyrchwyd swm bach arall o incwm drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ac fe'i datgelwyd yn unol â gofynion IFSR 15 am y tro cyntaf yn 2018-19. Nid oedd gan fy swyddfa gontractau parhaus a oedd o fewn cwmpas IFSR 15 ar ddyddiad y cais cychwynnol (01 Ebrill 2018). Bydd pob contract yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Incwm arall

Incwm arall oddi wrth	Manylion	Swm
		£000
Llywodraeth Cymru	All-secondiadau	18
Llywodraeth Cymru	Cyfraniad tuag y cyd-brosiect	4
Busnes yn y Gymuned	Cyfraniad tuag y cyd-brosiect	4
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru	Cyd-leoli swyddfa	2
Cyfanswm		28

Asedau contract

	Disgrifiad o'r contract	Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifyddu	Refeniw y disgwylir ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf 2019-2020
		£000	£000
Llywodraeth Cymru	All-secondiadau	13	45
Llenyddiaeth Cymru	Cyfraniad tuag at Fardd Preswyl	-	1
Cyfanswm		13	46

Ar 31 Mawrth 2019, swm cyfanredol pris y trafodiadau a ddyrannwyd ar gyfer bodloni'r rhwymedigaethau perfformio yw £13k, a godir fel ased contract er mwyn ei gydnabod fel refeniw ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

Ar 31 Mawrth 2019, swm cyfanredol pris y trafodiadau a ddyrannwyd ar gyfer gweddill bodloni gweddill y rhwymedigaethau perfformio yw £46k, a chydabyddiaeth ohono fel refeniw a fydd yn digwydd o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rhwymedigaethau contract

	Disgrifiad o'r contract	Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifyddu	Refeniw y disgwylir ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf 2019-2020
		£000	£000
Llywodraeth Cymru a Busnes yn y Gymuned	Cyfraniad at gyd-brosiect	8	3
Cyfanswm		8	3

Cydnabyddir rhwymedigaeth contract gwerth £3k oherwydd na fodlonwyd y rhwymedigaeth perfformiad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2019.

9. Ymrwymadau dan brydlesi

	2017-18		2016-17	
	£000		£000	
	Tir ac Adeiladau	Arall	Tir ac Adeiladau	Arall
Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu:				
O fewn blwyddyn	59	1	38	1
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	102	1	-	1
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-	-
Cyfanswm	161	2	38	2

Swm y taliadau pryddles a gydnabyddir ar gyfer y cyfnod cyfrifo hwn yw £45,013.

10. Offerynnau cyllidol

Mae IFRS7, Offerynnau Cyllidol, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau cyllidol wedi ei gael yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol fy ngweithgareddau a'r modd y mae fy ngweithrediadau'n cael eu hariannu, nid yw fy Swyddfa yn agored i risg ariannol i'r un graddau ag y mae endidau busnes yn ei wynebu. Hefyd, mae offerynnau cyllidol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau a restrir ac y mae IFRS7 fwyaf perthnasol iddynt. Mae gen i bwerau cyfyngedig iawn i fenthycu neu fuddsoddi arian dros ben ac mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ydynt yn cael eu cadw i newid y risgiau yr wyf yn eu hwynebu wrth ymgymryd â gweithgareddau.

Risg hylifedd

Ariennir gofynion adnoddau refeniw a chyfalaf net fy Swyddfa gan Lywodraeth Cymru. Felly nid yw fy Swyddfa yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau cyfradd llog.

Risg arian cyfred tramor

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau arian tramor.

Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa fel y maent ar 31 Mawrth 2019.

11. Ymrwymïadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymïadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018 – dim).

12. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018 – dim).

13. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, derbyniodd fy swyddfa ei unig ffynhonnell arian gan Lywodraeth Cymru (£1.480 miliwn ar gyfer eleni ac £1.480 miliwn yn y cyfnod cyfrifo blaenorol). Derbyniodd fy swyddfa incwm arall hefyd o £22k ynghyd â gwariant o £1k gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol (dim trafodion eraill yn y cyfnod cyfrifyddu blaenorol).

Mae cyflogres fy swyddfa'n cael ei chontractio allan i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a bu nifer fechan o drafodion materol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gweithredu'r gyflogres a'r pensiynau, gydag OGCC, Cyllid a Thollau EM a Swyddfa'r Cabinet.

Nid oedd unrhyw drafodion materol gyda sefydliadau lle'r oedd uwch staff, neu unrhyw un o'u teuluoedd, yn meddu ar swyddi dylanwadol.

14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol a'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 9 Gorffennaf 2019 gan Sophie Howe.

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol,
Siambrau'r Farchnad,
5-7 Heol Eglwys Fair Caerdydd
CF10 1AT

02921 677 400



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales